

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol 2025-2029

## Drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

Cymeradwywyd ar gyfer ymgynghoriad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 19 Mehefin 2024

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



# Rhagair

***"Edrychwch yn ofalus ar y presennol rydych chi'n ei greu: dylai edrych fel y dyfodol rydych chi'n breuddwydio amdano"***
**– Alice Walker**

Mae Parciau Cenedlaethol ymhlith ein llefydd mwyaf arbennig ni, a'r rheini wedi cael eu creu oherwydd eu tirweddau eithriadol. Maen nhw hefyd yn llefydd y bydd pobl yn byw ac yn gweithio ynddyn nhw ac yn ymweld â nhw. Oherwydd hynny, mae ganddyn nhw gyfraniad economaidd hollbwysig i'w wneud, ac maen nhw'n llefydd sydd â gwerth diwylliannol a chymdeithasol aruthrol.

Rydyn ni'n gwybod ein bod ni fel cymdeithas yn wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen – ac mae'n rhaid ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydyn ni hefyd yn wynebu'r hyn y gellid ei alw'n argyfwng iechyd. Ar ôl y pandemig, rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n profi gorbryder neu broblemau iechyd meddwl eraill, ac mae ein ffyrdd o fyw a'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar iechyd (fel incwm a thai) yn arwain yn gynyddol at ganlyniadau iechyd gwael.

Rydyn ni hefyd yn wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu swyddi a thai, i bobl ifanc yn enwedig. Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch nag yng ngweddill Sir Benfro; roedd canolrif pris gwerthu tai yn y Parc Cenedlaethol yn 2023 bron i ddeg gwaith yn uwch na chanolrif y cyflogau. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd cyfradd y stoc dai gyffredinol a gâi ei defnyddio fel ail gartrefi / tai



gwyliau yn y Parc Cenedlaethol ymhlith y gyfradd uchaf yng Nghymru a Lloegr, sef 26.7%. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ba mor fforddiadwy yw tai ac ar y cymorth sydd ar gael i deuluoedd lleol. Ym mis Mawrth 2024, roedd dros 5,000 o aelwydydd yn Sir Benfro ar y Rhestr Aros am Dai – heb gynnwys y rheini a oedd yn aros i drosglwyddo.

Er nad yw'n ymddangos bod prinder cyfleoedd gwaith yn Sir Benfro, mae'r swyddi sydd ar gael yn aml yn talu cyflogau isel (roedd dros 25% o'r gweithwyr amser llawn yn ennill llai na £18,000 y flwyddyn yn 2017) ac yn aml mae'r rheini'n swyddi tymhorol (mae cyfradd y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn y gaeaf bron i ddwbl y gyfradd yn yr haf). Yn unol â'r fframwaith Pontio Teg, gall partneriaid helpu i greu cyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â'r adferiad gwyrdd, gan greu cyfleoedd newydd i feithrin sgiliau a chreu swyddi.

Gall Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, fel lle, helpu i ymateb i'r heriau hyn mewn nifer o ffyrdd hollbwysig, gan wneud cyfraniad allweddol at gymunedau lleol ond hefyd gan wella canlyniadau mewn ffordd sy'n helpu i ymateb yn genedlaethol. Gallai hyn olygu ymateb i erydu arfordirol ac addasu trywydd Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro; gallai hefyd olygu gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd er mwyn i rywogaethau allu symud yn haws.

Mae bodau dynol wastad wedi addasu'n llwyddiannus, a gallwn wneud hynny nawr. Gallwn hefyd ein helpu ein hunain wrth i ni helpu'r amgylchedd o'n hamgylch. Mae'r prosiect llwyddiannus Gwreiddiau i Adferiad yn enghraifft amlwg o hynny – pobl yn gweithio i gyflwyno newidiadau mewn llefydd, a hynny o fudd i'w hiechyd ar yr un pryd.



Nid yw ymateb i'r heriau hyn yn rhywbeth y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei wneud ar ei ben ei hun – mae'r heriau'n rhai rhy fawr ac yn gofyn am gydweithredu. Mewn termau cyfreithiol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen hon, ond rydyn ni'n defnyddio'r term Cynllun Partneriaeth gan y bydd angen i ni gydweithio i greu'r dyfodol y mae Arfordir Penfro yn ei haeddu. Dyfodol yw hwnnw a fydd yn gwarchod y pethau sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig ar hyn o bryd, ond a fydd hefyd yn sicrhau bod y rheini'n parhau yn yr un cyflwr, ac y bydd eu hansawdd hyd yn oed yn gwella yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Partneriaeth hwn dros y pum mlynedd nesaf yn dangos sut y gall pawb sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro gydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r lle hwn ac i'r bobl. Rwyf wedi cael fy nghyfareddu wrth ddarllen rhywfaint o sylwadau'r cyhoedd am yr hyn sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig, ac rwy'n gobeithio y byddwch chithau'n mwynhau darllen rhai o'r dyfyniadau yn y Cynllun. Mae'r sylwadau hyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y polisïau a'r camau gweithredu a geir yn y Cynllun Partneriaeth hwn wrth i ni ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r ychydig flynyddoedd nesaf fel 'pwyth mewn pryd' i weithio tuag at well dyfodol.

Gobeithio y byddwch chi'n gweithio gyda ni tuag at yr un nod, ac rwy'n edrych ymlaen at gael adborth adeiladol am y Cynllun hwn drwy'r broses ymgynghori yn ystod yr haf.

**Tegryn Jones**
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Mai 2024



# Cyflwyniad gan Genhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Yn 2020, fe wnaethon ni sefydlu Pwyllgor Ieuenctid y Parc Cenedlaethol. Cenhedlaeth Nesaf y Parc Cenedlaethol yw enw'r pwyllgor bellach, a'i nod yw cyflwyno newidiadau cadarnhaol drwy gydweithio er budd y dyfodol.

Er mwyn cyflwyno newid go iawn sy'n para, rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni weithio mewn partneriaeth. Bu'n gyffrous iawn cael cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Partneriaeth hwn ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro dros y pum mlynedd nesaf. Arfordir Penfro yw ein cartref ni, ond rydyn ni'n gwybod bod pobl eraill wrth eu boddau'n ymweld â'r lle arbennig hwn hefyd. Rydyn ni eisiau gallu parhau i fyw yma yn y dyfodol, ac felly mae sut y mae'r Cynllun hwn yn cefnogi cymunedau lleol yn fater hollbwysig i ni. Mae ein Maniffesto Ieuenctid a'n blaenoriaethau i rymuso pobl ifanc a rhoi cyfleoedd iddyn nhw fyw, dysgu a gweithio, i gyd wedi bwydo i mewn i'r Cynllun hwn. Ac rydyn ni'n falch o weld bod y Cynllun yn cydnabod pa mor bwysig yw galluogi pobl ifanc i fwynhau byd natur.

Rydyn ni'n teimlo bod gan bobl ifanc gyfraniad hollbwysig i'w wneud at adfer byd natur ac at addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Rydyn ni hefyd yn gwybod y gall bod ym myd natur roi hwb aruthrol i les pobl. Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n edrych ar y camau gweithredu enghreifftiol sydd yn y Cynllun ac yn ymrwymo i weithio dros ddyfodol Arfordir Penfro ochr yn ochr â ni.

**Cenhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Mai 2024



# Cynnwys

**Rhagair**.....3
**Cyflwyniad gan Genhedlaeth Nesaf Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**.....6
**1 Tirwedd ar gyfer bywyd a gwaith**.....10
Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.....10
Awdurdod y Parc Cenedlaethol.....11
Pobl a lle.....12
Cefndir y cynllun hwn.....14
Pedair thema ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth.....17
Cynllun Datblygu Lleol 2 (tan 2031).....20
**2 Rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol**.....22
Beth sydd mor arbennig am y Parc Cenedlaethol?.....24
**3 Cyflwr y Parc – yr heriau a'r cyfleoedd**.....34
Y sefyllfa ar hyn o bryd.....34
**Plisïau a chamau gweithredu**.....79
**4 Cadwraeth: polisïau a chamau gweithredu**.....80
Gwarchod a gwella harddwch naturiol a bywyd gwyllt
**5 Cysylltu: polisïau a chamau gweithredu**.....91
Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg
Hyrwyddo a mwynhau dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol
**6 Yr hinsawdd ac adnoddau naturiol: polisïau a chamau gweithredu**.....101
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
**7 Cymunedau: polisïau a chamau gweithredu**.....105
Tirweddau ar gyfer bywyd a bywoliaeth
**Y camau nesaf**.....108
**Atodiad 1 – Monitro'r effaith**.....109

## Partneriaid a all helpu i gyflawni'r Cynllun

Aelwydydd sy'n byw mewn tlodi
Amgueddfa Cymru
Amphibian and Reptile Conservation Trust
Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro: Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol
Asiantau
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdodau harbwr
Awdurdodau Tai
Buglife
Bumblebee Conservation Trust
Busnesau
Busnesau lletygarwch
Cadw (Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru)
Cadwch Gymru'n Daclus
Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Benfro
Clwstwr Diwydiannol De Cymru
Coed Cadw
Coleg Sir Benfro
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Croeso Cymru
Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfranogwyr yng NgwobrJohn Muir
Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas
Cyngor Sir Benfro
Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
Cymdeithas Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro
Cymuned
Cyswllt Ffermio
Datblygwyr
Deiliaid tai
Diwydiant
Dŵr Cymru Welsh Water
Dysgu Cymraeg Sir Benfro
Future Works
Ffermwyr tir comin
Fforwm Arfordirol Sir Benfro
Fforwm Arfordirol Sir Benfro
Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro
Get Outdoors
Grŵp Amgylchedd Sefydlog Gorllewin Cymru
Grŵp Cynghori Parth Cadwraeth Morol Sgomer
Grŵp Cyswllt Traeth Sir Benfro
Grŵp Hinsawdd ac Ynni Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
Grŵp Llywio Rheolwyr yr Ardal Forol Warchodedig
Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro
Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro
Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol
Grwpiau cymunedol
Grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth (e.e. MIND, Gofal yn y Gymuned Tyddewi, Canolfan Ieuenctid Point)
Grwpiau defnyddwyr
Grwpiau Ffydd
Gweithgorau'r Amgylchedd Hanesyddol (Llywodraeth Cymru)
Gwirfoddolwyr
Gyda'n Gilydd dros Newid / Together for Change
Heddlu Dyfed-Powys
Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Lleoliadau diwylliannol
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Llywodraeth Cymru
Menter Iaith Sir Benfro
Milford Haven Waterway Environmental Surveillance Group
Mudiad Meithrin
Nyfer am Byth
Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
Parcmyn Ifanc
Partneriaeth Destination Pembrokeshire
Partneriaeth Dewch i Gerdded Sir Benfro
Partneriaeth Greenways Sir Benfro
Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru
Partneriaeth Natur Sir Benfro
Partneriaeth Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
Partneriaid Experiences for All
Partneriaid Gwreiddiau i Adferiad
Partneriaid Heritage Watch
Partneriaid prosiect Natur am Byth!
Partneriaid Prosiect Nos
Partneriaid prosiect Open to All
Ysgolion Awyr Agored
Partneriaid Race to Zero
Partneriaid Sky Ocean Rescue
Partneriaid y prosiect Y 1000 Diwrnod Cyntaf
Partneriaid ym maes cadernid tir comin
Perchnogion / rheolwyr asedau hanesyddol
Perchnogion adeiladau
Perchnogion cychod
Perchnogion eiddo
PLANED
Plant o dan 6 oed
Plantlife
Pobl 16-24 oed
Pobl 65+ oed
Pobl o'r mwyafrif byd-eang
Pobl sy'n profi iechyd a lles gwael
Pobl sydd ag anabledd
Porthladd Aberdaugleddau
Pride Sir Benfro
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Cymru
Prifysgolion
Prosiect Cleddau
Prosiect Pathways
Pysgotwyr
Pysgotwyr
Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro
Rhwydwaith Pori Sir Benfro
Sefydliad Cenedlaethol y Badau Achub
Siarter Tanau Gwyllt Cymru
South Hook LNG Terminal Co Ltd
Span Arts
Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru
Tirfeddianwyr / rheolwyr tir
Tirweddau Cymru / Landscapes Wales
Trafnidiaeth Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a Lloegr
Urdd Gobaith Cymru
Western Power Distribution / Y Grid Cenedlaethol
World Wide Fund for Nature
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Y Bwrdd Rheoli Maethynnau
Y Fforwm Hygyrchedd Lleol
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Y Pwyllgor Ieuenctid
Y rheini sy'n gwarchod treftadaeth
Y rheini sy'n gyfrifol am y Cynllun Cadeiriau Olwyn i'r Traeth
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol
Ymwelwch â Sir Benfro
Ymwelwyr
Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ysgolion
Ystad y Goron

Sylwch – nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac mae'n debygol y bydd mwy o bartneriaid yn cael eu hychwanegu.

[1] Aelodau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Cyngor Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwahoddedigion statudol: Gweinidogion Cymru, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

- Parc Cenedlaethol / National Park
- Llwybr yr Arfordir / Coast Path
- Canolfan Wybodaeth / Information Centre
- Safle Picnic / Picnic Site
- Gorsaf Reilffordd / Railway Station
- Harbwr / Harbour
- Cofeb Hanesyddol / Historic Monument
- Castell Cerrig / Stone Castle
- Man gwylio / Viewpoint
- Cromlech / Cromlech
- Hostel Ieuenctid / Youth Hostel
- Maes parcio'r Parc Cenedlaethol lle codir ffi / National Park fee-paying car park



# 1 Tirwedd ar gyfer bywyd a gwaith

## Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

Mae parciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn dirweddau eithriadol. Dibenion statudol parciau cenedlaethol yw:

- **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.**
- **Hyrwyddo cyfleoedd i helpu'r cyhoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.[2]**

Os bydd y dibenion hyn yn gwrthdaro â'i gilydd, heb fod modd datrys hynny, bydd y diben cyntaf yn cael blaenoriaeth ('egwyddor Sandford' yw'r enw ar hyn).

Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro arwynebedd o 629 km$^2$, sy'n golygu mai dyma un o'r parciau cenedlaethol mwyaf trwchus ei boblogaeth yn y Deyrnas Unedig, gyda bron i 21,000 o bobl yn byw mewn 49 o ardaloedd cynghorau cymuned, tref a dinas yn 2021. Arfordir Penfro yw'r unig barc cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig sy'n un arfordirol yn bennaf, ac fe'i dynodwyd yn ffurfiol yn 1952. Mae siâp a maint y Parc Cenedlaethol yn golygu ei bod hi'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth a gweithio dros ffiniau er mwyn cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

**Mae harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yn sail i iechyd a lles, ffyniant a diwylliant pobl. Mae tirweddau, afonydd a dyfroedd arfordirol yn gefn i'r prosesau sy'n helpu i gynhyrchu bwyd, dylanwadu ar yr hinsawdd, lleihau llifogydd a storio carbon.**

[2] Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a roddodd y fframwaith ar gyfer creu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dynodwyd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 1952.



**Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n gartref i 21,000 o bobl ac i amrywiaeth rhyfeddol o fywyd gwyllt, ac mae'n ganolog i'r hyn y mae Sir Benfro yn ei gynnig i ymwelwyr.**

## Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ("Awdurdod y Parc Cenedlaethol") sy'n gyfrifol am gyflawni dibenion y parc cenedlaethol yn y Parc Cenedlaethol hwn. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc Cenedlaethol wrth fynd ati i gyflawni'r dibenion.

Mae gan nifer o sefydliadau eraill hefyd ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw i ddibenion y Parc Cenedlaethol ac i Egwyddor Sandford . Yn ymarferol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid – sefydliadau, tirfeddianwyr, busnesau ac unigolion – yn cydweithio i geisio cyflawni nodau cyffredin a rhai sy'n cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r Cynllun Partneriaeth hwn yn dangos sut y bydd y partneriaid, ar y cyd, yn helpu i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer parciau cenedlaethol a thirweddau cenedlaethol (sef yr enw bellach ar rai ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol). Mae'r tirweddau gwarchodedig hyn yn llefydd sydd â gwerth naturiol a diwylliannol mawr. Maen nhw ar gyfer pawb yng Nghymru. Ac maen nhw'n hollbwysig i gyflawni uchelgeisiau amgylcheddol a chymdeithasol, ac uchelgeisiau ym maes datblygu economaidd cynaliadwy, yn genedlaethol ac yn lleol[4].

[3] Mae'r ddyletswydd i'w gweld yn adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
[4] Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol (2018)



Mae'r Cynllun Partneriaeth hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a geir yn llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth i Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

## Pobl a lle

Er bod rhannau o rai o barciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn wyllt ac yn anghysbell, mae pobl wedi byw ynddyn nhw ers to byd. Mae'r cenedlaethau a fu wedi dylanwadu ar rinweddau arbennig y dirwedd y byddwn ni'n ei mwynhau heddiw, wrth i bobl wneud penderfyniadau ymarferol a defnyddio'r offer a'r dechnoleg a oedd ar gael iddyn nhw, a hynny yng nghyd-destun eu diwylliant a'u gwerthoedd.

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd i hybu lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc wrth geisio cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, ynghyd â'r mwynhad a gaiff pobl o'r rhain, ynddyn nhw'u hunain yn arwain at amrywiaeth eang o fuddion cymdeithasol ac economaidd. Ar lefel ymarferol, mae tirweddau iach sy'n gweithio'n dda yn galluogi cymdeithas i dyfu bwyd (mae tua 60% o arwynebedd tir y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli i gynhyrchu bwyd neu borthiant ). Gan roi ystyriaeth i faterion sensitif sy'n ymwneud â'r dirwedd a bywyd gwyllt, mae modd i'r dirwedd gyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwres.

Mae'r dirwedd a bywyd gwyllt hefyd yn sail i brosesau naturiol o bwys fel rheoli'r hinsawdd a'r tywydd, ffurfiant pridd, storio carbon, peillio, amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd, ac ailgylchu dŵr a maethynnau. Mae ecosystemau amrywiol, iach yn fodd o warchod rhag newid amgylcheddol.

[5] Ar sail data am gynefinoedd Cam 1 2015 (dosbarthiadau glaswelltir a thir âr).



Y gwasanaethau ecosystemau hyn sy’n rhoi sail i les a ffyniant pobl, ac maen nhw’n sylfaen i nifer o elfennau eraill sy’n cyfrannu at ansawdd ein bywydau, gan gynnwys diwylliant ac ysbrydolrwydd.

**Nid oes modd gwahanu dibenion y Parc Cenedlaethol a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i feithrin lles economaidd-gymdeithasol wrth geisio cyflawni’r dibenion hynny.**

**Gyda’i gilydd, mae’r dibenion a’r ddyletswydd yn creu strategaeth economaidd gadarn – sef gwarchod a thyfu cyfalaf naturiol, diwylliannol a chymdeithasol, gydag incwm sy’n gynaliadwy ac yn deg.**

Mae rhan fwyaf y Parc Cenedlaethol mewn dwylo preifat, gyda thua chwarter ohono yn dir y cyhoedd neu’n berchen i elusennau. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn berchen neu’n rhentu ar les tua 1% o arwynebedd tir y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys safleoedd amlwg fel Castell a Melin Heli Caeriw, Bryngaer Oes Haearn Castell Henllys, ac Oriel y Parc. At hynny, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhentu ar les rannau mawr o’r blaendraeth i’r gorllewin ac i’r gogledd o Bwynt Giltar gan Ystad y Goron.

Tir Comin yw tua 7% o’r Parc Cenedlaethol, tra bo dros 6% yn ddaliadau’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen ar tua 4%; mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn berchen neu’n rhentu ar les tua 1%; ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen ar tua  0.6%.



## Cefndir y cynllun hwn

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol[6]. Mae'r Cynllun Rheoli presennol ar gyfer 2020-2024. Mae'r drafft hwn o'r cynllun a fydd yn ei ddisodli (Cynllun Partneriaeth yw'r enw arno) yn gynllun ar gyfer 2025-2029.

Mae'r Cynllun Partneriaeth yn datblygu ar gynlluniau blaenorol, yn rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau, ac yn cynnwys gwersi a ddysgwyd drwy sgyrsiau parhaus â sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n bartneriaid i ni. Mae'r Cynllun yn mynd ati i gynllunio mewn ffordd ailadroddus, lle bydd yr allbynnau a'r gwersi a ddysgwyd yng nghylch un cynllun yn sail i'r nesaf.

Fel rhan o'r broses, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi adolygu'r dystiolaeth a chyfraniad rhanddeiliad er mwyn canfod y prif faterion y mae angen i'r Cynllun Partneriaeth roi sylw iddyn nhw. Mae'r rhain wedi'u disgrifio yn adran 3 y Cynllun hwn, 'Cyflwr y Parc', ac yn cynnwys:

- Hybu adferiad ecosystemau ar raddfa fawr a gwella cyflwr bywyd gwyllt ar y tir ac yn yr amgylchedd morol (gyda charreg filltir i sicrhau adferiad amlwg erbyn 2050)
- Sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd sydd o werth mawr i natur
- Cynnal a chryfhau rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig yn Sir Benfro
- Cynyddu cysylltedd y dirwedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Hybu defnyddio'r Gymraeg, tafodiaith Gymraeg Sir

[6] Rhaid i Awdurdod pob Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli sy'n ffurfio'i bolisi ar gyfer rheoli'r Parc dan sylw ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Parc hwnnw (Adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995).



Benfro, a thafodiaith (Saesneg) de Sir Benfro

- Rhoi cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, i blant yn enwedig
- Rhoi cyfleoedd cynaliadwy i wneud gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored i drawstoriad llawn o gymdeithas, ac annog pobl i gymryd mwy o ran yn y rheini
- Rheoli'r pwysau posibl a'r pwysau go iawn a all ddeillio o weithgareddau hamdden, fel gwersylla anghyfreithlon a thagfeydd
- Lleihau'r rhestr aros sylweddol am dai fforddiadwy yn Sir Benfro (dros 5,000 yn 2024)
- Mynd i'r afael â'r nifer uchel o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a'r cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig
- Hybu gwellhad y nifer cynyddol o bobl sydd ag iechyd meddwl gwael ar ôl Covid-19
- Addasu i anghenion corfforol ac anghenion lles trigolion ac ymwelwyr wrth i'r rheini newid
- Cynnal ac ehangu opsiynau trafnidiaeth a theithio llesol cynaliadwy
- Haneru allyriadau carbon yn ardal y Parc Cenedlaethol dros oes y Cynllun hwn (gyda charreg filltir i wneud ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050)
- Mynd i'r afael yn rhagweithiol ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar seilwaith a chymunedau arfordirol
- Lleihau llygredd o ffosffadau, nitradau ac amonia, a chael gwared ar y niwed i'r amgylchedd sy'n deillio o ollwng carthffosiaeth yn sgil gorlif storm.

**Mae'r drafft hwn o'r Cynllun Partneriaeth yn cyflwyno dibenion y Parc Cenedlaethol, y camau gweithredu sydd i'w cymryd dros y pum mlynedd nesaf, y partneriaid a fydd yn rhan o'r broses, a'r dulliau o fesur llwyddiant.**



**Y drafft hwn yw'ch cyfle chi i helpu i ddylanwadu ar Gynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2025-2029.**

**Rhowch wybod i ni eich barn drwy gwblhau'r holiadur ar-lein y mae dolen iddo ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

Wrth baratoi'r Cynllun Partneriaeth hwn, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru wrth i ganllawiau newydd gael eu paratoi ar gyfer rheoli tirweddau gwarchodedig yng Nghymru. Mae fersiwn weithio o'r canllawiau wedi rhoi sail i'r broses o baratoi'r Cynllun hwn.

Mae asesiadau o'r effaith, sydd i'w gweld ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn cyd-fynd â'r Cynllun drafft er mwyn ymgynghori yn eu cylch. Diben yr asesiadau o'r effaith yw sicrhau nad oes effeithiau negyddol i gynigion polisi, a phan fydd hynny'n bosibl, sicrhau bod polisïau posibl yn arwain at werth ychwanegol – er enghraifft, o ran cymunedau, pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, iechyd pobl, a safleoedd bywyd gwyllt sy'n bwysig yn rhyngwladol.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnydd a lliniaru'r effeithiau negyddol posibl. Mae *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg* gan Lywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau statudol ac yn cyflwyno gofyniad i ganfod ardaloedd Cymraeg sy'n sensitif yn ieithyddol. Mae asesiad o effaith y Cynllun drafft ar y Gymraeg wedi'i gyhoeddi ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, er mwyn ymgynghori yn ei gylch.



## Pedair thema ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth

Mae tirweddau gwarchodedig yn asedau cenedlaethol ac yn un o'r prif ddulliau o gyflawni uchelgeisiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau rhyngwladol. Cynllun yw hwn felly ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, ac nid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig. Mae rhestr o bartneriaid wedi'i chynnwys eisoes yn y drafft hwn.

Mae'r Cynllun Partneriaeth wedi'i seilio ar weithredu o dan bedair thema sy'n cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r themâu yn ymwneud yn uniongyrchol â dibenion a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, ac yn cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer llesiant, yr hinsawdd, adnoddau naturiol a chadernid ecosystemau. (Mae'r pedair thema hefyd yn cyd-fynd â fformat cynllun corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei hun.)

**Mae'r Cynllun Partneriaeth wedi'i seilio ar bedair thema:**

- **Cadwraeth – o ran y dirwedd a bywyd gwyllt**
- **Cysylltu – pobl â byd natur a threftadaeth**
- **Yr hinsawdd ac adnoddau naturiol**
- **Cymunedau**

Mae'r themâu hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy[7], â'r blaenoriaethau a geir yn Natganiad Ardal y De-orllewin a'r Datganiad Ardal Forol a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac â deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau o bwys gan gynnwys:

**Links from the themes to Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 goals**

| Theme | Description | Well-being goal |
|---|---|---|
| **Conservation** | Conserving and enhancing natural beauty and wildlife. | A prosperous Wales<br>A Wales of more cohesive communities<br>A more equal Wales<br>A globally responsible Wales |
| **Connection** | Conserving and enhancing cultural heritage and Welsh language.<br>Promoting enjoyment and understanding of the National Park. | A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language<br>A more equal Wales<br>A healthier Wales |
| **Climate and natural resources** | Managing natural resources sustainably. | A globally responsible Wales<br>A resilient Wales<br>A healthier Wales<br>A prosperous Wales<br>A more equal Wales |
| **Communities** | Landscapes for lives and livelihoods. | A Wales of more cohesive communities<br>A prosperous Wales<br>A healthier Wales<br>A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language<br>A more equal Wales |

[7]Cyhoeddwyd Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018. Mae ynddo gynnig ar gyfer ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau parciau cenedlaethol geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau.

## Deddfwriaeth

- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 20165 gan gynnwys egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Polisïau a chynigion

- Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 2022 (gan gynnwys y targed 30x30)
- Cymraeg 2050
- Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn 2024, sy'n cynnwys cynigion i gyflwyno fframwaith targedau statudol ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru, a hwnnw i'w roi ar waith yn lleol drwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, gyda'r nod o wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a sicrhau adferiad amlwg erbyn 2050
- Y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd
- Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040
- Y Fframwaith Pontio Teg ar gyfer sero net
- Datganiad Ardal Forol
- Datganiad yn Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd gan Barciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
- Polisi Adnoddau Naturiol 2017
- Cynllun Strategol Sero Net 2022
- Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Chwefror 2024
- Datganiad Ardal y De-orllewin
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gan gynnwys egwyddorion y pum ffordd o weithio )
- Cynllun Llesiant Sir Benfro 2023-2028
- Datganiad polisi Llywodraeth Cymru 2018, Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

## Canllawiau ac adnoddau

- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2021)
- LANDMAP – llinell sylfaen tirwedd Cymru
- Gweledigaeth Natur a Ni (2023) ar gyfer 2050 lle bydd cymdeithas a byd natur yn ffynnu gyda'i gilydd, a lle bydd pobl yn cymryd mwy o ran mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar fyd natur.
- Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020 / Pontydd i'r Dyfodol
- Cyflwr Byd Natur 2023
- Trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig: Crynodeb i Gymru

Yn y dyfodol, rhaid i'r Cynllun Partneriaeth hefyd roi ystyriaeth i'r adroddiad am reoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae disgwyl yr adroddiad cyntaf o'i fath ym mis Rhagfyr 2026, ac felly bydd hynny'n digwydd yn ystod oes y Cynllun hwn.

[8]Mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i'w cael yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Y rhain yw: rheoli mewn modd ymaddasol; ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu; hyrwyddo cydweithio a chydweithredu a chyfranogi ynddyn nhw; gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau; ystyried y dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch; ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau; ystyried canlyniadau tymor byr, canolig a hir unrhyw gamau a gymerir; atal difrod arwyddocaol i ecosystemau; ystyried cydnerthedd ecosystemau, ac yn enwedig amrywiaeth, cysylltedd, graddfa, cyflwr (gan gynnwys strwythur a gweithrediad) a gallu ecosystemau i addasu.

[9]Mae hwn yn pennu tair blaenoriaeth genedlaethol: darparu atebion sy'n seiliedig ar fyd natur; cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a dilyn dull o weithio sy'n seiliedig ar leoedd.

[10]Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno pum ffordd o weithio. Y bwriad yw y bydd y Cynllun Partneriaeth (cynllun sy'n arwain at brosiectau) yn cyflawni'r pum ffordd o weithio (ac yn parhau i wella ar y rheini) fel a ganlyn. Hirdymor: Mae'r Cynllun yn mabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Atal: Mae'r Cynllun yn cynnig ffyrdd o osgoi problemau, a chynllunio mewn modd sy'n osgoi problemau, ynghyd â ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau. Integreiddio: Mae'r Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion a nodau llesiant lleol a chenedlaethol, â blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, ac â'r Datganiadau Ardal perthnasol. Cydweithio a Chynnwys: Os yw proses y Cynllun Partneriaeth i ychwanegu gwerth, dylai hybu cydweithio rhwng partneriaid a dylai gynnwys trawsdoriad cynrychioladol o gymdeithas. Mae'r broses o adolygu'r cynllun a'i roi ar waith yn rhoi cyfle parhaus i ddechrau sgyrsiau newydd a meithrin a chynnal perthnasau newydd. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Partneriaeth wedi canfod bod rhagor o botensial i gydweithio.



## Cynllun Datblygu Lleol 2 (tan 2031)

**Mae'r polisi arfaethedig yn y Cynllun Partneriaeth hwn yn rhoi cyd-destun ar gyfer cynllunio a rheoli'r amgylchedd adeiledig.**

**Mae polisïau cynllunio datblygu i'w cael yng *Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 (tan 2031)* ar gyfer y Parc Cenedlaethol, a luniwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

I gyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol 2, ceir nodiadau mewn Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n rhoi sylw i amrywiaeth o bynciau, ac mae nifer o'r rhain hefyd yn uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun Partneriaeth hwn. Caiff y broses o roi polisïau Cynllun Datblygu Lleol 2 ar waith ei monitro drwy Adroddiad Monitro Blynyddol a gaiff ei lunio gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae rhai o'r prif dueddiadau a welir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael sylw yn y Cynllun Partneriaeth.

Bydd y gwaith o adolygu Cynllun Datblygu Lleol 2 yn dechrau ym mis Medi 2024. Bydd y Cynllun Partneriaeth hwn, ynghyd â'r broses o fonitro ac adolygu'r cynllun presennol a'r sylfaen dystiolaeth, yn rhoi sail i'r adolygiad hwnnw.





# 2 **Rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol**

Ail ddiben y Parc Cenedlaethol yw *hyrwyddo cyfleoedd i helpu'r cyhoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.*

Yn 2024, gofynnodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i bobl beth oedd rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol yn eu tyb nhw. Gofynnwyd iddyn nhw hefyd pa risgiau sy'n wynebu'r rhinweddau hynny, a pha gamau gweithredu pellach y mae angen eu cymryd i'w gwarchod.

Yn y datganiadau o arwyddocâd isod, rydyn ni wedi ceisio crynhoi hanfod profiadau pobl o'r Parc Cenedlaethol, a natur y rhinweddau arbennig sy'n sail i'r profiadau hynny. Mae'r adran hon yn datblygu ar arolygon cyhoeddus blaenorol a gynhaliwyd i edrych ar y rhinweddau arbennig, ac ar asesiad o'r dirwedd.

Dyma rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

- Tirweddau a morluniau
- Golygfeydd arfordirol
- Golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored
- Bywyd gwyllt
- Hawliau tramwy
- Llonyddwch
- Awyr dywyll
- Treftadaeth a diwylliant



- Y Gymraeg
- Patrymau defnydd
- Treftadaeth y ddaear
- Cyfleoedd hamdden
- Y gymuned a stiwardiaeth

Mae ychwanegiadau / newidiadau i'r rhinweddau arbennig yn cynnwys mwy o bwyslais ar y Gymraeg a thafodieithoedd, ac ar amgylchedd synhwyraidd y Parc Cenedlaethol – er enghraifft, morluniau mawr, sensitifrwydd gorwel y môr yng nghyd-destun datblygu, seinweddau nodweddiadol, ac awyr dywyll.

**Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ddiolchgar am yr holl ymatebion i'r arolwg a ddaeth i law.**

**Dim ond detholiad bach iawn o ddyfyniadau (mewn dyfynodau) sydd wedi'u cynnwys yn y drafft hwn. Mae'r dyfyniadau'n rhoi syniad o hoff lefydd pobl, y rhinweddau sy'n gwneud y llefydd hynny'n arbennig, yr heriau, a rhai atebion posibl.**



## Beth sydd mor arbennig am y Parc Cenedlaethol?

### Tirweddau a morluniau

*“Tirwedd ddilychwin, brydferth. O’r radd flaenaf ym mhob ffordd.”*
*“Tirluniau godidog, pobl groesawgar, digon o le, heb ei sbwylio’n ormodol, hanes gwych, teimlad o gysylltiad.”*

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dirwedd ar gyfer bywyd a gwaith, ond lle ceir hefyd harddwch naturiol a threftadaeth ddiwylliannol eithriadol. Mae’r rhan drawiadol hon o Gymru yn galluogi pobl i fwynhau a chrwydro drwy nifer o dirweddau arfordirol a mewndirol, er mai cymharol fychan yw arwynebedd yr ardal, sef 629 km2.

Dyma un o’r parciau cenedlaethol mwyaf trwchus ei boblogaeth yn y Deyrnas Unedig, gyda bron i 21,000 o bobl yn byw mewn 49 o ardaloedd cynghorau cymuned, tref a dinas (ffigurau Cyfrifiad 2021). Cafodd Arfordir Penfro ei ddynodi’n ffurfiol yn Barc Cenedlaethol yn 1952.

*“Yr arfordir ysblennydd a phrydferthwch y Preseli. Weithiau, mae’n anodd bod yn hafan adferol sy’n gwarchod mynediad i fyd natur a gwylltir. Mae’n adnodd aruthrol, amhrisiadwy sydd o fudd i iechyd meddwl ac iechyd corfforol pobl.”*

### Golygfeydd arfordirol



*“Pentir Treginnis – y llanw’n byrlymu drwy Swnt Dewi a’r golygfeydd eang dros Fae Sain Ffraid.” “Mae Gorllewin Freshwater yn wyllt, yn enwedig mewn tywydd stormus, ac mae’n aml yn clirio’r pen!”*

Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn ymestyn i gymedr y distyll, ond mae Sir Benfro yn sir forol, ac mae’r môr, y dyfrffyrdd a’r afonydd yn rhan hollbwysig o brofiadau pobl o’r Parc.

A hwnnw’n enwog am ei arfordir ysblennydd a’i forluniau mawr, mae gan y Parc Cenedlaethol draethau tywodlyd, clogwyni trawiadol a phentiroedd garw. Mae hefyd yn cynnwys yr ynysoedd, a’r prif rai yw Ynys Bŷr, Ynys Dewi, Ynys Sgomer ac Ynys Sgogwm. Y Llychlynwyr a hwyliai’r arfordir rhwng yr wythfed a’r ddegfed ganrif a enwodd ynysoedd Sgogwm a Sgomer, ond enwau Cymraeg hŷn yw Ynys Bŷr ac Ynys Dewi, sy’n adlewyrchu’r traddodiad Cristnogol cynnar. Enwyd y naill ar ôl Sant Pŷr, o’r chweched ganrif, a’r llall ar ôl Dewi Sant, nawddsant Cymru. Mae riff y Smalls – lle ceir goleudy talaf Cymru – 20 milltir o’r lan.

*“Mae’r traethau yn Sir Benfro yn well nag unrhyw draethau dramor.”*

**Golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored**

*“Bryniau’r Preseli. Maen nhw ar y gorwel yn y rhan fwyaf o Sir Benfro. Daearyddiaeth ysblennydd, hanes a threftadaeth anhygoel, a’r ardal “wyllt” helaethaf yn y de-orllewin. O gopaon y bryniau i’r*



*corsydd a'r afonydd, dyma'r peth agosaf i wylltir sydd gennyn ni yn yr ardal hon."*

Mae Bryniau'r Preseli yn rhan o dirwedd hynafol, drawiadol tu hwnt ac yn llawn rhosydd a gweundiroedd bryniog ynghyd â chreigiau gwasgaredig sy'n brigo i'r wyneb. Mae'r bryniau, ynghyd â phentiroedd fel Penmaen Dewi a San Gofan, yn rhoi golygfeydd panoramig i gipio'ch anadl o'r sir a'r tu hwnt, a'r rheini'n ymestyn am ogledd Cymru ac arfordiroedd Iwerddon a Lloegr, gan gynnwys Ynys Wair.

## Bywyd gwyllt

*"Mae Cwm-yr-Eglwys yn Ninas yn lle cysgodol ac yn berffaith i nofwyr. Yn yr hydref, mae'n lle gwych i weld mordan a chwsberis môr."*

Mae'r arfordir, dyfroedd y glannau a'r ynysoedd yn gartref i amrywiaeth drawiadol tu hwnt o fywyd gwyllt, gan gynnwys cytrefi adar môr sy'n bwysig yn rhyngwladol, a rhywogaethau prin a rhai sydd mewn perygl.

Yn y Parc Cenedlaethol, neu'n rhannol o'i fewn, ceir 13 Ardal Cadwraeth Arbennig a 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol, un Warchodfa Natur Leol, ac un Parth Cadwraeth Morol (o amgylch Sgomer a phenrhyn Marloes).

*"Y waun ym Mrynberian, Carningli, y waun ger Mynachlog-ddu. Maen nhw'n arbennig gan nad ydyn nhw wedi cael eu sbwylio'n ormodol, a gan eu*



*bod nhw'n llefydd cymharol heddychlon a gwyllt lle mae hi'n dal yn bosibl crwydro heb ddod ar draws ffensys a ffensys weiren bigog (neu ddim gormod ohonyn nhw!). Mae modd dianc rhag prysurdeb parhaus bywyd 'modern', edrych ar blanhigion prin a'u harogli, a gwylio adar, gweision y neidr a phryfed eraill. Maen nhw'n gwneud i mi deimlo'n well, yn llai pryderus, ac yn fwy cyflawn."*

## Hawliau tramwy

*"Mae angen llefydd fel hyn arnon ni lle gallwn ni ailwefru ein batris corfforol a seicolegol."*

Cerdded yw'r gweithgaredd hamdden mwyaf arwyddocaol yn y Parc Cenedlaethol o bell ffordd. Mae Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dilyn yr holl arfordir – dyna i chi 299km o hyfrydwch pur sy'n drysor cenedlaethol. Yn y mewndir, ceir dyffrynnoedd cudd, coetiroedd hynafol ac afonydd braf i'w crwydro a'u mwynhau, a'r rheini'n hygyrch diolch i 1000+ km yn rhagor o hawliau tramwy. Dyma rwydwaith sy'n ateb gwahanol anghenion, er enghraifft anghenion pobl sydd ag anableddau.

Mae'r llwybrau hyn, law yn llaw â thua 6,600 hectar o dir hygyrch, yn galluogi pobl i ddilyn teithiau cerdded cylchol. Maen nhw hefyd yn creu cysylltiadau rhwng cymunedau y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a chysylltiadau ag ardaloedd y tu allan iddo. Mae rhwydwaith yr hawliau tramwy hefyd yn galluogi pobl i fynd i'r traethau, y coedwigoedd a'r bryniau, gan ddod o hyd i iechyd a hapusrwydd a lle i enaid gael llonydd yn yr awyr iach agored, yn nyfroedd y glannau, ac yn seinweddau nodweddiadol y Parc Cenedlaethol.



*“Mae Marloes, San Ffraid, a holl lwybr yr arfordir yn arbennig oherwydd bod lle yno i gerdded, i fwynhau’r golygfeydd, ac i gael llonydd i feddwl a mwynhau’r harddwch.”*

## Llonyddwch

*“Y heddwch a’r tawelwch – y gallu i ddianc.”*

Rhwng rhannau gorllewinol a deheuol y Parc Cenedlaethol mae Dyfrffordd Aberdaugleddau, lle mae blaenau tawel a choediog afonydd Cleddau, Caeriw a Cresswell yn llifo i un o borthladdoedd naturiol dŵr dwfn gorau’r byd. Mae’r Parc Cenedlaethol yn cynnig gwledd iachaol i’r synhwyrau gydol y flwyddyn – o drydar yr adar i flas yr heli.

*“Copaon y Preseli... Yn enwedig werth weld cymylau’r “trên stêm” wrth i hwnnw bwffian ei ffordd i Grymych.”*

## Awyr dywyll

Mae tywyllwch yn datguddio ysblander diymffrost awyr y nos, a hwnnw i ni’n edrych yn debyg iawn i sut yr edrychai i’r bobl a fu yma o’n blaenau.

Ceir ardaloedd helaeth yn y Parc Cenedlaethol lle nad oes llawer o lygredd golau, ac mae wyth o Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yn y Parc Cenedlaethol. Mae’r safleoedd hyn yn rhai hygyrch, gyda llefydd parcio wrth law, ac yn rhoi golygfeydd da o awyr y nos pan na fydd cymylau na lleuad.



## Treftadaeth a diwylliant

### *“Cromlech Pentre Ifan – hanes mewn gwedd syml yng nghanol y Preseli.”*

Mae gan y Parc Cenedlaethol dystiolaeth o weithgarwch pobl yma dros filoedd o flynyddoedd. Mae’r rhestr yn cynnwys 285 o Henebion Cofrestredig, a thua 10,000 o safleoedd sy’n rhan o’r Cofnod Amgylchedd Naturiol.

Ceir dros 1,200 o adeiladau rhestredig a 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig. Mae naw o ardaloedd lle ceir Tirweddau Hanesyddol yn gorwedd yn llwyr neu’n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, a cheir yno 14 o Barciau a Gerddi Hanesyddol.

Mae’r Parc Cenedlaethol yn gefnlen i chwedlau a straeon llên gwerin di-ri, a hynny’n adlewyrchu treftadaeth Gymreig unigryw. Mae meini hirion, siambrau claddu, gan gynnwys cromlech Neolithig enwog Pentre Ifan, a bryngaerau o’r Oes Haearn yn dystiolaeth bod pobl wedi ymgartrefu yma ers y cyfnodau cynnar. Credir mai o Fryniau’r Preseli y daeth cerrig gleision Côr y Cewri, ar ôl cael eu cloddio, o bosibl, o safleoedd fel Craig Rhos-y-felin.

Mae’r adeiladau hanesyddol a’r amgylcheddau adeiledig – gan gynnwys cestyll, eglwysi, trefi a phentrefi – yn dystiolaeth o dreftadaeth a diwylliant hanesyddol cyfoethog yr ardal, a hwnnw’n newid o hyd. Mae i enwau llefydd hanesyddol arwyddocâd diwylliannol, tra’u bod hefyd yn dangos gwybodaeth pobl am nodweddion naturiol.

O ran maint ei phoblogaeth, Tyddewi yw dinas leiaf y Deyrnas Unedig, ac mae’n denu pererinion o hyd. Yn yr oesoedd canol, barnwyd bod pererindod i Dyddewi yn gyfystyr â thaith i Rufain neu Jerwsalem.



*“Mae Castell Nanhyfer, a’i gysylltiadau â’r Arglwydd Rhys, yn berl gudd. Mae Pencaer yn rhan o archaeoleg gynhanesyddol yr arfordir, gyda chysylltiadau â´r Goresgyniad Olaf.”*

## Y Gymraeg a thafodieithoedd

*“Pentre Ifan, Carni Ingli a Chwm Gwaun. Yng Nghymru, mae arwyddocâd diwylliannol dwfn i’r llefydd hyn. Mae’r Gymraeg a’i diwylliant yn dal i fodoli yno... gallwn o hyd gysylltu â’n gorffennol pell drwy fod yn ystyriol yn y llefydd hyfryd hyn.”*

Mae’r Parc Cenedlaethol yn bair o ieithoedd, tafodieithoedd (Cymraeg a Saesneg) a slang. Mae’r iaith sydd i’w chlywed yma yn dyst i ymwneud amrywiol pobl â llefydd, a hynny wedi ysbrydoli llenyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd dros y cenedlaethau. Mae canran uwch o bobl yn ardaloedd y cynghorau cymuned yng ngogledd y Parc Cenedlaethol yn gallu siarad Cymraeg, ond mae’r Gymraeg yn adfywio yn ne’r Parc Cenedlaethol, gyda chymorth cyfleoedd addysg Gymraeg ledled y sir.

*“Y farddoniaeth Gymraeg sydd wedi disgrifio harddwch naturiol y lle hwn”*

> Mur fy mebyd, Foel Drigarn, Carn Gyfrwy, Tal Mynydd,
> Wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn.
> A’m llawr o’r Witwg i’r Wern ac i lawr i’r Efail
> Lle tasgodd y gwreichion sydd yn hŷn na harn.
>
> **o “Preseli” gan Waldo Williams**



## Patrymau defnydd

***"Y ffordd y mae byd natur, ffermio, hanes, y Gymraeg a diwylliant, a'r bobl i gyd yn plethu i'w gilydd erbyn hyn."***

I bob diben, tirwedd sy'n cael ei rheoli yw'r Parc Cenedlaethol heddiw, ac mae ffermio wedi dylanwadu ar rannau helaeth ohono. Heddiw, ffermydd llaeth a geir yn bennaf yma, gyda gwartheg a defaid, ynghyd a rhywfaint o dir âr. Mae perthi enwog Sir Benfro, coedwigoedd fferm a choed yn y dirwedd yn creu plethwaith cywrain, a'r rhwydwaith hwn yn hollbwysig i fywyd gwyllt. Mae enwau caeau wedyn yn cyfeirio at hen gartrefi, perchnogion a defnydd tir.

Heddiw, mae amgylchiadau penodol a'r cyfyngiadau ar fynediad i Faes Tanio Castellmartin yn golygu bod modd parhau i reoli tir yn helaeth, gan gynnwys drwy ddull yr hafod a'r hendref rhwng y Maes Tanio a Bryniau'r Preseli.

## Treftadaeth y ddaear

***"Mae Ceibwr, Trewyddel yn lle gwych a diarffordd, ac mae'r ddaeareg yno'n gyfareddol."***

Yn ddaearegol, mae hi'n ardal eithriadol; roedd treftadaeth y ddaear ymhlith y prif resymau dros ddynodi'r ardal yn Barc Cenedlaethol. Mae clogwyni garw a ffurfiant creigiau yn adrodd stori miliynau o flynyddoedd o weithgarwch daearegol.

Mae gan y Parc Cenedlaethol dystiolaeth o dirweddau hynafol, gweddillion wedi'u ffosileiddio a phrosesau daearegol, sy'n golygu bod yr ardal yn adnodd byd-enwog ym maes ymchwil ac addysg. Ceir 51 o safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol) a 66 o Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol yn y Parc Cenedlaethol.



## Cyfleoedd hamdden

*“Mae modd cyrraedd y llefydd poblogaidd a’r rheini sy’n fwy diarffordd.”*

Gydag atyniadau naturiol a diwylliannol fel y rhain, mae’r Parc Cenedlaethol hefyd yn llawn dop o gyfleoedd hamdden i’w mwynhau. Bydd ymwelwyr yn cael eu denu yma o bell ac agos, a chafwyd 7.7 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr yn 2022[11]. Mae’r amrywiaeth eang a chynhwysol o weithgareddau awyr agored sydd ar gael yn hwb pellach i’r cyfleoedd hamdden a’r cyfleoedd i ddarganfod pethau, sy’n gwneud Arfordir Penfro yn atyniad heb ei ail i bobl sy’n awyddus i ymlacio, crwydro neu fynd ar antur.

*“Y golygfeydd a’r ffaith mai dyma unig Barc Cenedlaethol arfordirol y Deyrnas Unedig. Mae’n wych bod cynifer o deithiau cerdded hygyrch ar gael, ar wahân i Lwybr yr Arfordir.”*

## Y gymuned a stiwardiaeth

Am y rhesymau hyn a rhagor, bydd y trigolion lleol ac ymwelwyr yn meithrin perthynas gydol oes ag Arfordir Penfro. Mae’r Parc Cenedlaethol yn galluogi pobl i ganolbwyntio ar bethau cyffredin, ac mae’n eu huno drwy greu ymdeimlad o gymuned a stiwardiaeth, lle, hunaniaeth a balchder.

*“Yn achos swyddi sy’n gysylltiedig â’r Parc Cenedlaethol, mae angen gallu cyflogi amrywiaeth eang o bobl, o’r ifanc i’r hen, ac o wahanol gefndiroedd ethnig a chymdeithasol er mwyn rhoi safbwyntiau gwahanol yn y Parc Cenedlaethol.”*

[11]STEAM Final Trend Report for 2011-2022 for Pembrokeshire Coast National Park, Global Tourism Solutions UK Ltd.





# 3 Cyflwr y Parc – yr heriau a'r cyfleoedd

Mae'r adran flaenorol yn dangos rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Yn yr adran hon, byddwn ni'n trafod cyflwr y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y dirwedd a'r adnoddau naturiol a diwylliannol sy'n sail i'r rhinweddau arbennig ac i les y gymuned.

Mae amrywiaeth o ddulliau o fesur canlyniadau wedi'u cyflwyno yn yr adran hon. Mae rhai o'r rhain (ac eraill) yn ymddangos ar fapiau ar-lein sy'n rhoi mwy o wybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Mae'r 'arwyddion allweddol' hyn wedi'u dewis i helpu i werthuso cyfeiriad a chyflymder y teithio mewn perthynas â dibenion y Parc Cenedlaethol, ac maen nhw'n cynnwys data am y canlynol:

- Cyflwr y Parc Cenedlaethol (y canlyniadau)
- Tueddiadau o ran gwahanol faterion (y ffactorau sy'n effeithio ar y canlyniadau)
- Ymdrechion sy'n cyfrannu at ddibenion y Parc Cenedlaethol (yr effeithiau)

Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol 2025 (arcgis.com) neu https://tinyurl.com/fhyyttue

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

### Tirweddau a morluniau

*"...gwersylloedd a thai gwyliau... rydw i'n credu bod gennyn ni ddigon i ddarparu ar gyfer twristiaeth, a dydw i ddim yn credu bod angen i ni greu rhagor o gyflenwad."*



LANDMAP yw system wybodaeth genedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rhoi ystyriaeth i'r dirwedd wrth wneud penderfyniadau. Mae'r system wedi'i seilio ar bump elfen: daeareg, gorchudd cynefin, priodoleddau gweledol a synhwyraidd, cymeriad hanesyddol, a chysylltiadau diwylliannol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod LANDMAP yn adnodd pwysig i awdurdodau cynllunio lleol wrth gynnal yr asesiadau o'r dirwedd sy'n angenrheidiol i roi sail i bolisïau, canllawiau a phenderfyniadau lleol, ac mae'n rhoi sylfaen i'r dull o asesu'r dirwedd drwy Gymru gyfan.

Yn 2006, comisiynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol Asesiad o Gymeriad y Dirwedd, a hwnnw wedi'i seilio ar wybodaeth o LANDMAP ac yn rhoi sylw i gyfuniad o'r pump elfen a geir yn LANDMAP. Canfu'r Asesiad 28 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol yn llwyr neu'n rhannol.

Mae asesiad tebyg wedi'i gynnal ar gyfer cymeriad y morlun. Mae hwn wedi canfod 44 o Ardaloedd Cymeriad Morlun ar gyfer yr arfordir a dyfroedd tiriogaethol y glannau hyd at 12 milltir o arfordir Sir Benfro, yn ymestyn o Ynys Aberteifi yn y gogledd i foryd Taf ym Mae Caerfyrddin yn y de. Mae ardal yr astudiaeth yn cyrraedd y mewndir ac ardaloedd Dyfrfforddd Aberdaugleddau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a hyd at derfyn llanw Daugleddau.

Mae asesiadau o Gymeriad y Dirwedd a Chymeriad y Morlun yn canfod priodoleddau'r ardaloedd hyn a'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu, gan greu canllawiau ar gyfer eu rheoli. Maen nhw'n creu Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig i



gyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol 2. Gan hynny, maen nhw'n ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio, sy'n cael eu gwneud yn unol â Chynllun Datblygu Lleol 2. Bydd penderfyniadau sy'n groes i'r polisi yn cael eu monitro drwy adroddiad monitro blynyddol. Bydd yr amodau a gyflwynir wrth gymeradwyo ceisiadau cynllunio yn cael eu monitro a'u gorfodi, ac felly hefyd ddatblygiadau anawdurdodedig.

Mae nifer o elfennau'n gallu rhoi pwysau ar ansawdd y dirwedd a'r morlun. Byddai'r rhan fwyaf o'r materion a gaiff sylw yn y Cynllun Partneriaeth hwn yn gallu effeithio ar ymddangosiad y dirwedd a'r modd y mae'n gweithredu. Serch hynny, mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol o ran ansawdd y dirwedd a'r morlun, ac o ran y swyddogaethau ecolegol sy'n sail i hynny:

- *Arferion rheoli tir,* sydd â goblygiadau penodol i gynefinoedd lled naturiol a'r bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â'r rheini, ac i reoli adnoddau naturiol fel priddoedd a dŵr
- *Datblygu,* y mae angen iddo warchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol
- *Y newid yn yr hinsawdd,* a allai newid dosraniad bioamrywiaeth yn sylweddol, ynghyd â newid cnydau, arferion ffermio, ac ymddangosiad yr arfordir, ardaloedd isel a bryniau.

## Bywyd gwyllt

***"Ehangu'r ardaloedd gwyllt sy'n bodoli drwy brosiectau ar raddfa'r dirwedd."***



Mae cyflwr bywyd gwyllt yn dal yn bryder mawr ar drothwy cylch y Cynllun hwn. Mae bywyd gwyllt yn gyffredinol yn dirywio'n drychinebus. Yn ôl *Sefyllfa Natur: Cymru 2023*, mae bywyd gwyllt yng Nghymru yn gyffredinol wedi dirywio 20% ers 1994, ac mae un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru yn wynebu risg o ddifodiant. Er bod 11% o dir Cymru wedi'i ddynodi ar gyfer gwarchod byd natur, dim ond 25% o'r nodweddion a aseswyd a oedd mewn cyflwr ffafriol. Mae dros hanner ardal forol Cymru yn rhan o ardaloedd morol gwarchodedig, ond nid yw dros 50% o'r nodweddion sydd ynddyn nhw mewn cyflwr ffafriol. Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, casgliad yr adroddiad yw bod bioamrywiaeth a'r amgylchedd ehangach yng Nghymru yn dal i ddirywio.

***"Gwarchodwch y fioamrywiaeth, gan ein bod ni ar y dibyn. Dylid gwarchod Parciau Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddai symud tuag at dwristiaeth byd natur, gan gefnu ar dwristiaeth antur, i'w groesawu'n fawr."***

Drwy'r targed "30x30" y cytunodd Cynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig arno yn 2022, y nod yw gwarchod a rheoli 30% o arwynebedd y ddaear er budd byd natur erbyn 2030[12]. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth fod yn

[12]Cynllun Gweithredu Adfer Naur Cymru 2020-2021 (llyw.cymru) yw'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'n dangos sut y bydd Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig, Convention on Biological Diversity's (CBD) Strategic Plan for Biodiversity (a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig ar gyfer 2011-20 yng Nghymru) yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Cytunwyd ar Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd yn COP15 ym mis Rhagfyr 2022. Mae gofyn i bob parti, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, ddatblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Bioamrywiaeth i ddangos sut y bydd yn cyflawni'r nodau a'r targedau a geir yn y fframwaith newydd. Yng Nghymru, yn ystod yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, cytunodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i ddiwygio'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Bioamrywiaeth (sef y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar hyn o bryd) er mwyn adlewyrchu argymhellion yr Archwiliad Dwfn ac ymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar ôl 2020.



well, yn fwy, ac yn fwy cysylltiedig, a hynny wedi'i seilio ar egwyddorion rhwydweithiau ecolegol cadarn[13].

Mae safleoedd cadwraeth natur dynodedig yn elfennau hollbwysig er mwyn adfer cysylltedd a'r modd y mae ecosystemau'n gweithredu. Serch hynny, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymwybodol nad yw dynodi o anghenraid yn arwain at warchod. O fewn ffin y Parc Cenedlaethol, a hyd yn oed mewn safleoedd gwarchodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae statws cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau'n aml yn anffafriol, tra bo'r ecosystemau y maen nhw'n rhan ohonyn nhw yn dameidiog ac yn methu â gweithredu'n iawn.

***"...dim ond 14% o dir y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y Parc sydd mewn cyflwr ffafriol – nid yw'r Parc yn cyflawni ar gyfer byd natur ar hyn o bryd."***

Yn yr un modd, ni all safleoedd dynodedig fodoli ar eu pennau'u hunain, a rhaid i'r cefn gwlad ehangach a'r amgylchedd morol ehangach allu darparu'r swyddogaethau yn yr ecosystem sy'n angenrheidiol er mwyn i safleoedd gwarchodedig fod yn gyflawn.

***"Mae'r rhain yn broblemau aruthrol ac efallai fod yr ymatebion yn ymddangos yn rhy rwydd, ond yn syml, allwn ni ddim bwrw yn ein blaenau heb fwy o reoleiddio, mwy o orfodi a mwy o addysg i fynd i'r afael â llygredd ac ymddygiad anwybodus ac anghyfrifol."***

[13]Cyfoeth Naturiol Cymru / Canllaw i ymarferwyr ar rwydweithiau ecolegol cadarn





## Cyflwr safleoedd cadwraeth dynodedig


Mae pwysigrwydd y Parc Cenedlaethol o ran bioamrywiaeth i'w weld yn nifer uchel y safleoedd cadwraeth dynodedig. Mae'r canlynol yn rhan o'r Parc Cenedlaethol, naill ai'n llwyr neu'n rhannol:

- 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (Bae Ceredigion, Bae Caerfyrddin a'r Morydau, Afonydd Cleddau, Gweunydd Blaencleddau, Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru, Coedydd Gogledd Sir Benfro, Comins Gogledd Orllewin Sir Benfro, Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston, Sir Benfro Forol, Preseli, Afon Teifi, Tyddewi, Yerbeston Tops)
- 5 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (Ynys Dewi ac Arfordir Penmaen Dewi, Ynysoedd Sgogwm a Sgomer, Ynys Gwales, Arfordir Castellmartin a Bae Caerfyrddin)
- 60 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol (Coedwig Pengelli, Ynys Dewi, Ynys Sgogwm, Ynys Sgomer, Ystagbwll, Tŷ Canol, Ynys Gwales)
- 11 Parth Cadwraeth Morol (Ynys Sgomer)
- 1 Gwarchodfa Natur Leol (Dwyrain Freshwater)

***"Mae cynefinoedd Afon Nyfer yn dioddef pan fydd unrhyw lygredd yn yr afon, ac maen nhw'n dioddef hefyd o ymlediad rhywogaethau goresgynnol fel jac y neidiwr. Mae ymylon y ffyrdd sy'n gweu drwy'r parc yn dioddef pan fyddan nhw'n cael eu torri cyn i'r blodau hadu. Dydy pryfed ddim yn cael digon o amser i gwblhau eu cylchoedd cyn iddyn nhw gael eu darnio gan y dechneg a ddefnyddir i ladd gwair.***




**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol yn y Parc Cenedlaethol, yn llwyr neu'n rhannol**

***Ac mae'r caeau sy'n ffinio â nhw yn cael eu trin, a bydd slyri'n cael ei wasgaru, heb adael ymyl i fywyd gwyllt."***

Mae tua 80% o holl arfordir y Parc Cenedlaethol yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dynodedig. Mae ffiniau tri Safle Morol Ewropeaidd yn gorgyffwrdd â 75% o arfordir y Parc Cenedlaethol, ac mae tua 60% o ardal y glannau yn rhan o'r safleoedd hyn.

Ar sail data a gasglwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ceir amcangyfrif isod o statws yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n rhan o'r Parc Cenedlaethol, naill ai'n llwyr neu'n rhannol.

***"Mae rhywfaint o'r hyn y mae angen ei wneud i warchod byd natur a "rhinweddau arbennig" y Parc Cenedlaethol yn gofyn am newid y gyfraith, heb sôn am fwy o gyllid. A all Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ddangos beth sy'n angenrheidiol er mwyn i Barciau Cenedlaethol wella sut maen nhw'n gwarchod yr ardaloedd arbennig y cawson nhw'u creu i ofalu amdanyn nhw?"***

| Statws nodweddion yr Ardal Cadwraeth Arbennig | Nifer y nodweddion | Canran y nodweddion |
|---|---|---|
| **Ffafriol** | 35 | 36% |
| **Anffafriol** | 58 | 60% |
| **Dim data** | 4 | 4% |

| Statws nodweddion yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig | Nifer y nodweddion | Canran y nodweddion |
|---|---|---|
| **Ffafriol** | 6 | 75% |
| **Anffafriol** | 1 | 12.5% |
| **Dim data** | 1 | 12.5% |

## Hamdden a darganfod

Dylai Parc Cenedlaethol helpu i ennyn diddordeb pobl gydol oes yn yr amgylchedd, a helpu i newid agweddau ac ymddygiad pobl yn hynny o beth. Mae cysylltiad anhepgor rhwng deall, mwynhau a gwarchod y Parc Cenedlaethol a'r amgylchedd ehangach. Mae gweithgareddau hamdden gan amlaf yn golygu dysgu pethau, a dylid mwynhau dysgu; gall y naill beth a'r llall roi safbwyntiau newydd i bobl am eu hamgylchfyd ac amdanyn nhw'u hunain.

Bydd dysgu a gweithgareddau hamdden awyr agored hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd a lles pobl, ac maen nhw'n un o gonglfeini economi'r rhanbarth. Drwy reoli'r dirwedd y daw pobl yma i'w mwynhau, a thrwy reoli Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr hawliau tramwy mewndirol, y traethau a'r meysydd parcio y bydd mwyafrif yr ymwelwyr yn eu defnyddio, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid yn rheoli ac yn gwarchod rhai o'r cyfleusterau pwysicaf i ymwelwyr yn Sir Benfro.

***"Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, twristiaeth, presgripsiynu cymdeithasol ac ati i annog mwy o ddealltwriaeth fuddiol, mwy o gysylltiadau a mwy o ofal dwyochrog rhwng y bobl sy'n byw y tu mewn a'r tu allan i'r Parc, ac yn enwedig pobl ifanc sy'n byw mewn mannau eraill, ac sy'n wynebu dyfodol mor anodd ac ansicr. Defnyddio byd natur i annog gobaith ac i sbarduno camau sy'n rhoi stop ar y niwed a gaiff ei achosi i'n dyfodol rhyngddibynnol."***



Er bod gan Sir Benfro y gyfradd gyfranogi uchaf mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru, nid yw dau draean y trigolion yn ddigon egnïol. Drwy Gymru, mae rhwystrau rhag cyfranogi'n cynnwys amser, anableddau, problemau iechyd ac oedran, ynghyd â'r rhwystrau sy'n wynebu rhai lleiafrifoedd ethnig, grwpiau sydd ar y cyrion, a grwpiau ffydd. Mae cyfle i gynyddu nifer y bobl sy'n mwynhau'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig mewn achosion lle nad yw'r gweithgareddau'n ymwthgar a phan fyddan nhw'n cael eu gwneud yn ystod cyfnodau tawel. Mae digon o gyfle hefyd i groesawu trawsdoriad mwy cynrychioladol o gymdeithas i'r Parc Cenedlaethol.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd o'r radd flaenaf ar gyfer cerdded yr arfordir, dringo a chwaraeon dŵr. Bydd pobl yn gwerthfawrogi'r dirwedd a'r traethau'n enwedig, ac ar y cyfan, maen nhw'n fodlon iawn â'u profiad o'r Parc Cenedlaethol a Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro, gyda chanran uchel o ymwelwyr yn dychwelyd dro ar ôl tro. Mae galw ymhlith oedolion sy'n byw yng Nghymru am gyfleoedd i gerdded a seiclo oddi ar y ffordd, tra bo diddordeb cryf ymhlith pobl ifanc yn Sir Benfro mewn chwaraeon padlo, arfordira, gwersylla, fforio a byw yn y gwyllt.

Pan fydd gweithgareddau hamdden yn effeithio'n negyddol ar rinweddau arbennig, cymunedau a defnyddwyr eraill y Parc Cenedlaethol, mae tuedd i'r effeithiau hynny fod yn rhai sy'n perthyn i lefydd ac amseroedd penodol. Er y gallan nhw greu heriau wrth reoli, mae modd eu datrys hefyd, er enghraifft drwy gytundebau gwirfoddol a chodau ymddygiad ar gyfer grwpiau defnyddwyr. Er gwaethaf hynny, cyfyngedig yw'r cosbau sy'n gallu cael eu rhoi i'r lleiafrif sy'n ymddwyn yn anghyfrifol neu'n torri codau ymddygiad (oni



bai bod trosedd wedi'i chyflawni). Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid yn ymwybodol o rai problemau dwys a chyson.

***"Camau cryfach yn y maes cynllunio a chadwraeth er mwyn gwarchod byd natur – gyda chynifer o rywogaethau o dan fygythiad, a thra bo gan Gymru'r nod o warchod byd natur, dylid rhoi mwy o ddannedd i Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a dylid gwneud mwy i warchod adar sy'n nythu a thraethau lle ceir cenawon morloi."***

Ar y cyfan, mae gan bobl ymwybyddiaeth dda o ddibenion parciau cenedlaethol y Deyrnas Unedig, ac mae parciau cenedlaethol yn bwysig iddyn nhw. Serch hynny, bydd pobl yn ei chael hi'n anodd enwi parciau cenedlaethol penodol, ac mae dryswch ynghylch pwy sy'n berchen arnyn nhw a phwy sy'n eu rheoli. Er bod ymwybyddiaeth amgylcheddol gyffredinol yn cryfhau, mae gwybodaeth benodol am fioamrywiaeth, ac o bosibl am rinweddau arbennig eraill parciau cenedlaethol, yn gymharol wael, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n gwaethygu wrth i fywyd gwyllt ei hun ddirywio ac wrth golli ymwybyddiaeth sy'n pontio'r cenedlaethau.

***"Mae pobl sy'n creu helynt, cŵn a phobl anghyfrifol yn achosi llawer iawn o niwed. Rhowch y gorau i hysbysebu rhannau gwylltach y parc fel llefydd i'w crwydro. Does dim angen tarfu arnyn nhw."***

Yn hanesyddol, nid yw'r grwpiau a'r cynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol wedi adlewyrchu ehangder ac





amrywiaeth cymdeithas yn y Deyrnas Unedig, ac mae rhai cynulleidfaoedd lleol wedi'u hesgeuluso. Mae angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid barhau i arloesi wrth gyfathrebu ac ymwneud â phobl, gan weithio i gael gwared ar y rhwystrau sy'n dal i atal pobl rhag mwynhau'r Parc Cenedlaethol a dysgu amdano. Mae angen parhau hefyd i gyrraedd pobl sy'n byw o fewn ffiniau neu'n agos at ffiniau'r Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'r rheini y tu hwnt iddo.

Gall diffyg toiledau hygyrch rwystro pobl neu ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw achub ar gyfleoedd yn y Parc Cenedlaethol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol, neu weithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i wirfoddoli. Mae hyn yn waeth i bobl sydd ag anghenion ychwanegol o ran iechyd, anableddau, ffydd neu gyfrifoldebau gofalu. Mae darparu toiledau a llefydd newid hygyrch yn bwysig i helpu pobl anabl a gofalwyr i ddefnyddio'r Parc. Bydd diffyg toiledau yn effeithio ar allu lleoliadau yn y Parc i fod yn ystyriol o oedran ac o ddementia.

Er y dylai pawb allu mwynhau'r Parc Cenedlaethol a dysgu amdano, bydd cynulleidfaoedd penodol yn parhau i fodoli. Yn eu plith mae'r bobl sy'n dylanwadu ar y broses o reoli'r Parc Cenedlaethol (gan gynnwys rheolwyr tir a llunwyr polisïau), y bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol ac yn ymweld â'r lle, a'r bobl sy'n gallu helpu i gyflawni amcanion rheoli penodol (er enghraifft, perchnogion adeiladau rhestredig).

Mae pobl ifanc yn gynulleidfa arbennig o bwysig. Waeth sut y maen nhw'n perfformio mewn lleoliadau dysgu confensiynol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl ifanc



yn cael budd mawr o ddysgu yn yr awyr agored ac o waith ymarferol, a hynny o ran deilliannau dysgu, iechyd a lles, a chyfrifoldeb personol a chymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod pobl ifanc a gweddill byd natur yn tyfu fwyfwy ar wahân, ac yn gysylltiedig â hyn mae gormod o amser ar sgrin (dewis amgen sy'n atyniadol iddyn nhw), amgylchedd tlotach (sy'n llai atyniadol i grwydro ynddo), a phryderon am ddiogelwch. Mae hyn wedi cyfrannu at broblemau pwysau yn ystod plentyndod, cynnydd mewn asthma, a diffyg ffitrwydd cardiofasgwlaidd ymhlith plant. Mae diffyg cysylltiad â byd natur hefyd yn rhannol gysylltiedig â chynnydd mewn problemau ymddygiad a phroblemau emosiynol.

Ar y llaw arall, gall dod i gyswllt â'r amgylchedd naturiol, yn enwedig drwy weithgareddau hamdden egnïol a dysgu yn yr awyr agored, leihau straen ac ymddygiad ymosodol, gwella gallu pobl i ganolbwyntio, a gwella hwyliau a hunan-barch pobl. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau partner wedi bod yn llwyddiannus wrth weithio gydag ysgolion cynradd, ond mae diffyg athrawon yn ystod y dydd yn cyfyngu ar y gallu i weithio gydag ysgolion uwchradd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysicach cynnwys plant drwy weithgareddau allgyrsiol, gan roi cyfle i gynnwys pobl ifanc nad ydyn nhw efallai'n cymryd rhan yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 186 milltir (300km) o hyd, gyda 30km arall o lwybrau amgen sy'n cael eu rheoli yn croesi'r llanw a meysydd tanio milwrol. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n rheoli Llwybr Arfordir Penfro gyda chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Llwybr Arfordir Penfro bellach yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru, sy'n 870 milltir o hyd. Mae'n rhoi golygfeydd ysblennydd a chyfle



i weld bywyd gwyllt. Mae'n rhan gyson o holl arfordir Sir Benfro ac yn un o'r prif ffyrdd sydd gan ymwelwyr o grwydro a mwynhau glannau'r Parc Cenedlaethol.

Mae Llwybr yr Arfordir felly'n rhan gwbl ganolog o gynnig twristiaeth Sir Benfro, ac yn atyniad ynddo'i hun. I gyd-fynd â'r llwybr, ceir 1,000+ km o hawliau tramwy mewndirol, gan gynnwys 180km o lwybrau ceffylau, sydd bron i gyd yn croesi tir preifat. Yn ardal y Parc Cenedlaethol, mae'r rhain yn cael eu rheoli gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol o dan gytundeb dirprwyo gyda Chyngor Sir Benfro. Tra bo'r rhwydwaith agored yn tua 87% o'r cyfanswm, mae'n ateb y rhan fwyaf o'r galw gan ddefnyddwyr. Ceir tua 6,600 hectar o dir hygyrch.

Y golygfeydd arfordirol, y traethau a'r cyfleoedd hamdden mewndirol yw sylfaen cynnyrch twristiaeth Sir Benfro. Ceir dros 50 o draethau y gellir eu hadnabod yn rhwydd yn y Parc Cenedlaethol. Yn y rhan fwyaf ohonyn nhw, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhentu'r blaendraeth ar les gan Ystad y Goron, gyda Chyngor Sir Benfro yn rhentu'r traethau i'r dwyrain o Bwynt Giltar ar les. Mae llawer o'r blaenlaniadau mewn perchnogaeth gyhoeddus, gyda Chyngor Sir Benfro yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith o reoli'r traethau, gan weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac eraill.

*"Os gwelwch yn dda, gwnewch y parc cenedlaethol yn fwy hygyrch i bobl sydd ag anableddau."*
*"Mae angen i ni wella pa mor hygyrch yw nifer o draethau, e.e. Niwgwl, gan ei bod hi'n anodd iawn i*



*unrhyw un sydd â phroblemau symud groesi amddiffynfeydd uchel o gerrig mân."*

Mae'r llain arfordirol, Daugleddau, Afon Cleddau Wen ac Afon Cleddau Ddu yn creu cyfleoedd hamdden o bwys yn y Parc Cenedlaethol, a bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau partner yn gweithio i hyrwyddo a rheoli gweithgareddau dŵr, yn unol â'r angen i gyflawni polisïau rheoli ar gyfer bywyd gwyllt, y dirwedd a gwarchod treftadaeth. Ceir cyfleoedd rhagorol ar gyfer nofio mewn dŵr agored, syrffio, caiacio/canŵio a chwaraeon gwynt, ynghyd a chyfleoedd i fwynhau'r dŵr mewn ffyrdd eraill wrth grwydro'r arfordir a darganfod bywyd gwyllt. Mae hyn o fudd i iechyd, lles a datblygiad personol pobl, ac mae hefyd yn creu incwm i'r rhanbarth.

Mae'r llanw a'r topograffi'n cyfyngu ar allu rhai badau i lywio drwy'r dyfroedd mewndirol, tra bo meysydd tanio milwrol yn cyfyngu ar y mynediad i ardaloedd peryglus yn y môr oddi ar arfordir y de. Mae'r mynediad i borthladdoedd y tu allan i Aberdaugleddau yn dibynnu'n drwm ar y llanw. Mae hyn, ynghyd â natur agored llawer o'r arfordir, llanw terfol, ac ardaloedd peryglus yn y môr, yn cyfyngu ar y potensial i ehangu'r cyfleoedd i hwylio'n agos at yr arfordir. Serch hynny, bu cynnydd mawr yn ddiweddar mewn padlo, padlfyrddio a rhwyfo, ac mae i hynny fanteision o ran cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Yn achos rhwyfo, mae iddo hefyd elfen gref o gymuned.

Ceir nifer o lithrfeydd o amgylch yr arfordir ac ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau, a'r rheini'n eiddo i berchnogion niferus. Nid yw'r rhan fwyaf o'r llithrfeydd yn cael eu goruchwylio, ac mae modd eu defnyddio'n rhad ac am ddim. Er bod hyn yn eu gwneud nhw'n boblogaidd, gall hefyd ei gwneud hi'n fwy



anodd talu i'w cynnal a'u cadw a rheoli gweithgareddau amhriodol pan fydd angen gwneud hynny. Mae nifer o safleoedd lansio mewn pentrefi neu leoliadau diarffordd, gyda ffyrdd cul tuag atyn nhw sy'n anaddas i gerbydau mwy neu gerbydau sy'n tynnu trelar. Gall lansio ar draethau bach hefyd darfu ar bethau a chreu risgiau i ddefnyddwyr eraill.

Yn amodol ar y llanw a'r dyfnder, mae Dyfrffordd Aberdaugleddau i fyny'r afon i Hwlffordd a Phont Canaston yn hygyrch iawn i gychod. Er nad oes afonydd sy'n rhoi hawliau mordwyo y tu hwnt i derfyn y llanw yn Sir Benfro, efallai y bydd cyfleoedd i drafod mynediad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ar Afon Cleddau Wen ac Afon Cleddau Ddu. Yr unig afonydd o bwys heb lanw yn y Parc Cenedlaethol yw afon Nyfer ac afon Gwaun. Mae modd pysgota ar y naill a'r llall a cheir llwybrau cerdded ar y lan, ond mae'r potensial ar gyfer gweithgareddau hamdden ar y dŵr (yn amodol ar gytundeb) wedi'i gyfyngu i ganŵio pan fo'r afon yn ei llif.

***"Diffinio ardaloedd ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau: arfordira a phadlfyrddio mewn un lle, tawelwch i wylio adar mewn lle arall; a rhai llefydd i'r morloi a'r carfilod yn unig."***

## Llonyddwch

***"Y heddwch a'r tawelwch – y gallu i ddianc"***

Mae llonyddwch wedi'i ddiffinio fel "cyflwr o osteg a thawelwch sy'n gysylltiedig â heddwch, yr ystyrir ei fod yn ased o bwys mewn tirwedd" (y Landscape Institute a'r Institute of Environment Management and Assessment, 2013, Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment, 3ydd argraffiad).



Er y gellid ystyried rhannau sylweddol o'r Parc Cenedlaethol yn rhai sy'n rhoi llonyddwch yn ôl y rhan fwyaf o ddiffiniadau, gall sŵn traffig a defnydd ansensitif neu anghyfreithlon o gerbydau darfu ar yr heddwch a'r tawelwch hwnnw. Mae gweithgarwch milwrol yn creu cryn sŵn. Mae'n bosibl y bydd tyrbinau gwynt a seilwaith trydan a chyfathrebu mewn ardaloedd amlwg/anghysbell, a gall hyn darfu ar yr elfen led-naturiol neu ar ba mor ymddangosiadol wyllt yw ardal.

Nid yw llonyddwch gan amlaf yn ymwneud â distawrwydd. Mae'n cynnwys synau a all gyfrannu at ymdeimlad o le, fel trydar adar ar dir fferm neu suo pryfed. Mae erydu a cholli seinweddau naturiol, sy'n un o ganlyniadau'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn debygol o fod yn fater llawer mwy heriol na mynd i'r afael â sŵn nad oes neb eisiau'i glywed.

## Awyr y nos

***"...mae'n ymddangos bod llygredd golau yn broblem gynyddol i'n statws awyr dywyll. Mae gan ffermydd mawr, yn enwedig, oleuadau LED llachar iawn yn eu beudai."***

Ar sail mapiau awyr dywyll a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru[14], nid oes llygredd golau yn rhannau helaeth o'r Parc Cenedlaethol. Serch hynny, ceir ffynonellau golau sylweddol (gan gynnwys rhai y tu allan i'r Parc Cenedlaethol), tra bydd golau hefyd yn dod o ffynonellau amaethyddol neu fusnesau unigol mewn ardaloedd sydd fel arall yn rhai tywyll.

Ceir wyth Safle Darganfod Awyr Dywyll yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r safleoedd hyn yn rhai hygyrch, gyda

[14]Dolen i fap sy'n dangos llygredd golau, wedi'i gomisiynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru https://luc.maps.arcgis.com/apps/dashboards/1cd6ba8a1d7d4a62aff635cfcbaf4aec



llefydd parcio wrth law, ac yn rhoi golygfeydd da o awyr y nos pan na fydd cymylau na lleuad. Ymysg yr wyth safle mae safleoedd Orion (lle mae modd gweld y saith brif seren yng nghytser gaeaf Orion gyda'r llygad noeth) a safleoedd y Llwybr Llaethog  (safleoedd tywyllach, lle mae modd gweld y Llwybr Llaethog gyda'r llygad noeth). Y safleoedd hyn yw:

- Mae parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ne Aberllydan
- Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Garn Fawr
- Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Kete
- Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Martin's Haven
- Mae parcio yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Thraeth Niwgwl
- Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhraeth Poppit
- Maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Skrinkle Haven
- Safle picnic y Parc Cenedlaethol yn Sychpant

## Yr hinsawdd

***"Mae angen mwy o dir o amgylch y gwylltiroedd a'r cyrsiau dŵr, a mwy o dir sy'n eu cysylltu. Wrth i'r hinsawdd newid, ac wrth i'r ecoleg yn gyffredinol barhau i ddirywio, mae'n bwysicach nag erioed gwarchod beth sydd gennyn ni a'i wella lle gallwn ni, a sicrhau ei fod yn ffynnu yn y dyfodol."***

Mae'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys newid sydyn, yn y gorffennol wedi arwain rhywogaethau i fudo, ynghyd ag arwain at ddifodiant rhywogaethau. Mae hefyd wedi achosi newidiadau i lefel y môr[15], i orchudd y tir, ac i gylchrediad cefnforoedd.

[15]Lefel y môr yn fyd-eang, a'r arwyddion yw ei fod yn codi ac y bydd hynny'n cyflymu yn y tymor hir. Mae'r Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn amcangyfrif mai cymedr y cynnydd yn lefel y môr fydd rhwng 0.43m ac 1.1m erbyn 2100 (senarios allyriadau Llwybr Crynoadau Cynrychioladol (RCP) 2.6 ac 8.5).



Mae’r pwysau y mae pobl yn ei roi ar yr amgylchedd yn lleihau’r opsiynau a fyddai’n galluogi byd natur i addasu i’r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu bod yr angen i leihau’r pwysau gan bobl, nad yw’n gysylltiedig â’r hinsawdd, yn fwy fyth. Gan hynny, mae parhau i gymryd camau ym maes cadwraeth, cynyddu’r camau hynny, a chyflwyno atebion sy’n seiliedig ar natur yn ateb uniongyrchol o bwys i’r newid yn yr hinsawdd ac i’r gallu i wrthsefyll hwnnw, yn enwedig pan fydd yn gwella cynefinoedd a chysylltedd.


Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru ei bod hi’n argyfwng hinsawdd, ac yn 2021, datganodd ei bod hi’n argyfwng natur. Mae adroddiad y *Pwyllgor Newid Hinsawdd, Addasu a’r Argyfwng Natur*[16] *(Medi 2023)*, yn cyflwyno saith o egwyddorion ar gyfer mynd i’r afael â’r argyfyngau natur a hinsawdd gyda’i gilydd.

Mae’r targed sero net yn cyfeirio at ymrwymiadau llywodraethau i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn lleihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr 100% o lefelau 1990 erbyn 2050. Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cynghori y bydd hyn yn arwain at siawns o 50% o osgoi cynnydd ‘trychinebus’ o 1.5°C yn nhymheredd y byd erbyn y flwyddyn 2100.

Mae gan Lywodraeth Cymru darged ar gyfer creu sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, ac mae wedi dynodi ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio fel un o’r meysydd blaenoriaeth ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol darged a phroffil lleihau carbon ar gyfer gwneud ardal y Parc Cenedlaethol yn sero net erbyn 2048 (gweler isod). Ochr yn ochr â pharciau cenedlaethol eraill y Deyrnas Unedig, mae’r Parc Cenedlaethol yn gweithio tuag at ymuno â chynllun Race to Zero y Cenhedloedd Unedig, gyda’r nod o haneru allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030 a chyrraedd sero net erbyn 2050 ar yr hwyraf.

[16]Dolen i’r ddogfen "Adaptation and the nature emergency" gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd https://www.theccc.org.uk/publication/adaptation-and-the-nature-emergency/

**Y llwybr i sero net: Ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Small World Consulting)**



Mae angen cynllunio hefyd at heriau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac addasu i'r rheini. Yn bennaf yn eu plith mae erydu arfordirol a llifogydd, ac mae angen gwneud hyn drwy holl ardal y Parc Cenedlaethol, gan helpu pobl i ymateb i'r heriau hyn. Gallai hyn, er enghraifft, olygu atal rhai mathau o ddatblygiadau mewn lleoliadau sydd â risg, neu helpu cymunedau i ddeall sut y gallai risg llifogydd effeithio arnyn nhw.

Bydd ffactorau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r economi yn parhau i ddylanwadu ar dymhorau ymwelwyr ac ar y galw. Gallai gaeafau gwlypach a mwy o stormydd wneud gwyliau yn y Deyrnas Unedig yn llai atyniadol y tu allan i'r tymor traddodiadol, ond gallai hafau cynhesach annog mwy o drigolion y Deyrnas Unedig i fynd ar eu gwyliau yn y gwledydd hyn, gan arwain at dymor mwy diffiniedig ac at fwy o bwysau yn sgil gweithgareddau hamdden. Gallai'r newid yn yr hinsawdd ddylanwadu ar brofiad hamdden pobl yn y Parc Cenedlaethol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Newidiadau i'r dirwedd ac i fywyd gwyllt
- Rhai traethau'n symud yn fwy mewndirol, a rhai eraill yn cael eu colli
- Llwybrau arfordirol a llwybrau eraill yn cael eu haddasu'n fwy aml/yn fwy sylweddol yn sgil erydu
- Effeithiau ar ansawdd hawliau tramwy
- Effeithiau ar ansawdd dŵr ymdrochi

***"Wrth i lefelau'r môr godi, a gyda chynnydd mewn llifogydd, gallai Arfordir Penfro ac ardaloedd o amgylch afonydd wynebu llifogydd a throi'n ardaloedd tanddwr yn y dyfodol agos. Mae angen***

[17] Ar sail codau post sydd ag o leiaf draean eu harwynebedd yn y Parc Cenedlaethol.



*cynllun os bydd amddiffynfeydd rhag llifogydd yn methu, er mwyn adleoli adeiladau, bywyd gwyllt a phobl ac ati, fel ein bod ni'n paratoi at un o'r senarios gwaethaf."*

## Lles economaidd-gymdeithasol

*"Mae angen mwy o bwyslais ar bobl leol yn ogystal ag ar dwristiaeth – cefnogaeth i fusnesau a seilwaith sydd ar agor/yn hygyrch y tu hwnt i'r tymor gwyliau, gyda chefnogaeth i'r genhedlaeth nesaf fyw a gweithio yn lleol."*

Amcangyfrifir mai £3.6 biliwn oedd Cynnyrch Domestig Gros Sir Benfro yn 2021 (data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol). Y saith dosbarth cyflogaeth uchaf yn y Parc Cenedlaethol i bobl rhwng 16 a 74 oed sydd mewn gwaith yw: gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (13.8%); gweithgareddau gwasanaethau bwyd a llety (13.2%); masnach cyfanwerthu a manwerthu, atgyweirio cerbydau (12.4%); adeiladu (9.8%); amaethyddiaeth, ynni a dŵr (8.6%); addysg (8.1%), a gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol (6.4%) (Cyfrifiad 2021).

Ceir heriau penodol wrth ddarparu swyddi a thai, i bobl ifanc yn enwedig. Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch nag yng ngweddill Sir Benfro; yn 2023 roedd canolrif pris gwerthu tai yn y Parc Cenedlaethol 9.67 yn uwch na chanolrif y cyflogau . Ym mis Mawrth 2024, roedd 5,238 o aelwydydd yn Sir Benfro ar y Rhestr Aros am Dai – heb gynnwys y rheini a oedd yn aros i drosglwyddo.



Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd cyfradd y stoc dai gyffredinol a gâi ei defnyddio fel ail gartrefi / tai gwyliau yn y Parc Cenedlaethol ymhlith y gyfradd uchaf yng Nghymru a Lloegr, sef 26.7%. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ba mor fforddiadwy yw tai ac ar y cymorth sydd ar gael i deuluoedd lleol.

***"...dylen ni fod yn canolbwyntio mwy ar atgyweirio adeiladau presennol sydd wedi mynd a'u pennau iddyn nhw."***

***"Cau a lleihau gwasanaethau. O gwtogi oriau rhai llyfrgelloedd i gau banciau go iawn."***

Er nad yw'n ymddangos bod prinder cyfleoedd cyflogaeth yn Sir Benfro, mae'r swyddi sydd ar gael yn aml yn talu cyflogau isel (roedd dros 25% o'r gweithwyr amser llawn yn ennill llai na £18,000 y flwyddyn yn 2017) ac yn aml yn swyddi tymhorol (mae'r cyfraddau sy'n hawlio budd-daliadau yn y gaeaf bron i ddwbl y cyfraddau yn yr haf).

Poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn ôl Cyfrifiad 2021 oedd 20,933, sy'n ostyngiad o 7.6% ers Cyfrifiad 2011 (22,644). Dyma'r gostyngiad mwyaf ym mhoblogaethau holl Barciau Cenedlaethol Cymru a Lloegr rhwng y ddau gyfrifiad. Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod dros draean (33.2%) y trigolion yn 65 oed a hŷn.  Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gallu i gael gwasanaethau, gan gynnwys:

- Mwy o alw am wasanaethau gofal iechyd ac amseroedd aros hwy
- Addasu trafnidiaeth gyhoeddus i ddarparu ar gyfer teithwyr hŷn, a'r potensial i ynysu pobl oherwydd diffyg trafnidiaeth
- Llai o bobl oedran gweithio ar gael i helpu i ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn



Mae'r Parc Cenedlaethol yn go boblog, gyda dim ond ambell ardal amhoblog o bwys. Serch hynny, mae'r boblogaeth yn wasgaredig, sy'n ychwanegu at yr heriau wrth geisio defnyddio gwasanaethau a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae cau gwasanaethau lleol a'r pellter teithio i gyrraedd rhai gwasanaethau'n golygu y gall fod yn anodd defnyddio gwasanaethau hanfodol mewn rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol. Mae nifer cymharol uchel yr aelwydydd nad ydyn nhw'n berchen ar gar (13.7% yn ôl Cyfrifiad 2021) yn gwaethygu'r sefyllfa hon.

Roedd y rhan fwyaf o wardiau'r cyngor sir yn y Parc Cenedlaethol ymhlith y 10% mwyaf amddifad yng Nghymru ym mharth 'mynediad i wasanaethau' Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Yr eithriadau oedd Tyddewi, Trefdraeth a'r ardal o amgylch Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot. Mae parth mynediad i wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried gallu pobl i gyrraedd siop fwyd, meddygfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, swyddfa'r post, llyfrgell gyhoeddus, canolfan hamdden a deintydd drwy'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol.

Mae'r uchod i gyd yn creu heriau sylweddol i gymunedau'r Parc Cenedlaethol. Ni all Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddatrys y rhain ar ei ben ei hun; rhaid i gymunedau, busnesau a sefydliadau statudol gydweithio er mwyn dod o hyd i'r atebion i hyn.

***"Dylid hyrwyddo gweithredu gwleidyddol sy'n rhoi sylw i ACHOSION pethau ac nid i'r SYMPTOMAU yn unig."***

***"Dylid herio'r syniad o ehangu economaidd di-baid."***



Mae'r heriau sy'n wynebu cymunedau lleol o ran tai yn amlwg iawn, ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cydnabod pa mor hollbwysig yw darparu tai fforddiadwy yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 a sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael i gymunedau lleol, a hynny yng nghyd-destun ehangach gwarchod y dirwedd. Drwy ei wasanaeth cynllunio a'i adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau bod polisïau tai ac economaidd addas wedi'u cyflwyno i hybu datblygu cynaliadwy.

Mae partneriaid fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chwmnïau adeiladu yn hanfodol er mwyn darparu datblygiadau o ansawdd da yn yr amgylchedd sensitif hwn. Gall sicrhau bod swyddi a thai ar gael yn lleol helpu i gadw siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau ieithyddol sensitif. Gall dilyn polisïau gosod lleol, ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy sydd wedi'u heithrio, hefyd helpu i leihau'r potensial i effeithio ar yr iaith.

***"...deall pa mor fregus yw'r gymuned Gymraeg a cheisio barn rhanddeiliaid ac ymgyrchwyr i edrych ar sut i gartrefu pobl leol yn wyneb y farchnad dai ddi-ffrwyn."***

Mae'r economi dwristiaeth yn sbardun economaidd hollbwysig i Sir Benfro, a harddwch y Parc Cenedlaethol yw un o'r prif resymau pam y bydd nifer o bobl yn ymweld â'r ardal. Gall gweithredwyr helpu i wella hygyrchedd a chynhwysiant drwy ystyried anghenion ymwelwyr a allai fod ag anghenion ychwanegol. Mae'n bosibl gwneud y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch mewn sawl ffordd, o'i wneud yn hygyrch i bobl sydd ag anableddau i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau sy'n ystyriol o faterion synhwyraidd.



## Trafnidiaeth

*“Gwella pa mor hygyrch yw trafnidiaeth gyhoeddus, seiclo a cherdded.”*

Ardal wledig yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn bennaf, ac mae ganddi boblogaeth wasgaredig sy’n heneiddio. Mae nifer o broblemau’n gysylltiedig â’r system drafnidiaeth i’r bobl sy’n byw neu’n gweithio yn y Parc Cenedlaethol neu sy’n ymweld â’r ardal.

Gan mwyaf, bydd trigolion ac ymwelwyr â’r Parc Cenedlaethol yn teithio mewn ceir preifat, ac mae hynny’n rhoi straen ar y dirwedd ddynodedig ac ar gymunedau lleol.

I drigolion ac ymwelwyr sy’n awyddus i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae’r opsiynau’n gyfyngedig. Mae’r gwasanaethau trenau ar y brif lein yn gwasanaethu Sir Benfro drwy dair lein reilffordd i Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro. Mae’r gwasanaethau’n anfynych ac yn araf, a cheir rhai cynlluniau cyfyngedig i wella’r ddarpariaeth hon. Mae gwasanaethau bysiau Sir Benfro yn ddibynnol ar gymhorthdal cyhoeddus, ac mae pwysau sylweddol yn hynny o beth.

Mae Mapiau’r Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer Sir Benfro yn dangos llwybrau cerdded a seiclo sy’n bodoli’n barod a’r rhai sydd yn yr arfaeth. Mae’r rhain wedi’u crynhoi o amgylch y prif aneddiadau, ac mae angen datblygu mwy o gyfleoedd i deithio’n llesol mewn trefi a phentrefi. Mae gan Sir Benfro rwydwaith o lwybrau seiclo, ond mae mwyafrif y rheini ar y ffyrdd.

Mae’n hollbwysig bod y system drafnidiaeth yn y 15-20 mlynedd nesaf yn ateb anghenion ardaloedd gwledig yn



ogystal â rhai trefol. I wneud hyn, mae angen yr elfennau canlynol:

- Hybu a datblygu opsiynau teithio llesol yn yr holl drefi a phentrefi. Mewn ardaloedd gwledig, lle mae'r pellteroedd gan amlaf yn fwy, mae cyfle i ddefnyddio beiciau trydan yn ddiogel i gyfrannu mwy at ddewisiadau teithio llesol
- Darparu llefydd gwell i barcio beiciau mewn trefi a phentrefi ac yn y prif fannau sy'n denu ymwelwyr
- Hybu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i allu cefnu ar ddibyniaeth ar geir preifat a gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn ymarferol ac atyniadol i drigolion ac ymwelwyr. Mae angen i opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl. Mae angen gwella seilwaith bysiau: gwell llefydd aros a llochesi, darparu gwybodaeth a sgriniau sy'n dangos gwybodaeth amser real, darparu gwybodaeth am brisiau bysiau, a gwell integreiddio rhwng gwasanaethau
- Gwasanaethau trenau mwy mynych, cyflymach a mwy dibynadwy ar y brif lein i Sir Benfro. Mae angen integreiddio rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn ei wneud yn ddewis atyniadol ac mae angen darpariaeth ar gyfer ymwelwyr sy'n dymuno dod i Sir Benfro heb gar.

***"Os gwelwch yn dda, gwnewch y parc cenedlaethol yn fwy hygyrch i bobl sydd ag anableddau."***



## Yr amgylchedd hanesyddol

### Henebion Cofrestredig

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer dynodi, gwarchod a rheoli henebion cofrestredig yng Nghymru. Bydd Gweinidogion Cymru, gan weithredu drwy Wasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw), yn creu ac yn cadw cofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol, a honno'n cael ei defnyddio i reoli gwaith ar safleoedd ac o'u hamgylch.

Mae Henebion Cofrestredig yn groestoriad pwysig o'r adnodd archaeolegol sy'n hysbys. Mae Cofnod Amgylchedd Hanesyddol ardal y Parc Cenedlaethol yn cynnwys dros 280 o Henebion Cofrestredig. Dros gyfnod o amser, bydd rhagor o gategorïau o henebion yn cael eu hystyried, a mwy o safleoedd yn cael eu cofrestru.

Mae rhywfaint o ddata am gyflwr Henebion Cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol ar gael ac wedi'u darparu gan Cadw (Medi 2021). Nid yw'r data'n gyflawn ac nid oes data am dueddiadau ar gael ar hyn o bryd.

Yn rhannol, erydu arfordirol sy'n gyfrifol am nifer yr Henebion Cofrestredig sydd mewn cyflwr anffafriol, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anochel y bydd rhai henebion yn dirywio ac yn cael eu colli yn y pen draw. Gall hynny olygu nad yw hi'n ddiogel eu rheoli dros dro. Mae erydu arfordirol hefyd yn arwain at ddarganfod henebion a safleoedd sy'n wynebu risg yn amlach, ac mae hynny unwaith eto yn arwain at gynnydd yn y ffigur.

| Cyflwr yr Heneb Gofrestredig | Nifer | Canran y nodweddion |
|---|---|---|
| **Ffafriol** | 196 | 73% |
| **Anffafriol** | 68 | 25% |
| **Heb eu hasesu** | 5 | 2% |



Partneriaid fel Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n rheoli ac yn gofalu am nifer o asedau hanesyddol mwy o faint. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n rheoli Bryngaer Oes Haearn Castell Henllys a Chastell a Melin Heli Caeriw, gan ddod â hanes a chyn-hanes yn fyw.

## Asedau hanesyddol sydd heb eu cofrestru

Tra bo Henebion Cofrestredig wedi'u gwarchod dan y gyfraith, ceir tua 10,000 o asedau yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn ardal y Parc Cenedlaethol, ac nid yw mwyafrif llethol y rhain wedi'u gwarchod. Maen nhw'n wynebu risg yn sgil amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys amaethyddiaeth, gweithgareddau hamdden, twf planhigion, gweithgarwch anifeiliaid, a datblygu. Gall safleoedd arfordirol, boed nhw'n cael eu gwarchod o dan y gyfraith neu beidio, fod yn fregus oherwydd erydu.


Ffynhonell arall o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol a safleoedd hysbys yn y Parc Cenedlaethol yw Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sy'n rhan o'r Comisiwn Brenhinol. Mae hwn yn cynnwys cronfa ddata o gofnodion (ni fydd rhai ohonyn nhw'n ymddangos yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol) ynghyd ag archif gysylltiedig ehangach. Mae'r Comisiwn Brenhinol hefyd yn rheoli ac yn diweddaru Cronfa Ddata Forol Cymru sy'n cynnwys asedau niferus ar y môr o amgylch arfordir Penfro.

## Cymeriad y dirwedd hanesyddol

***"Penrhyn Pencaer – tirwedd hanesyddol a golygfeydd o'r môr."***

Ceir dwy Gofrestr sy'n dangos tirweddau hanesyddol o bwys, yr elfennau sy'n rhoi eu cymeriad hanesyddol iddyn nhw, a statws risg y dirwedd.

**Map: Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol**



Cadw, y Cyngor Rhyngwladol Henebion a Safleoedd a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cadw'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r Gofrestr yn rhestru pedair ardal yn y Parc Cenedlaethol: Preseli; Penrhyn Dewi ac Ynys Dewi; Ynys Sgomer, a Dyfrfford Aberdaugleddau.

Mae'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn rhestru pump o dirweddau hanesyddol eraill yn y Parc Cenedlaethol: Trefdraeth a Charningli; Pen Caer; Cwningar Ystagbwll; rhan o Ddyffryn Isaf Teifi; a Maenorbŷr.

Nid yw cofrestru'n rhoi gwarchodaeth statudol, er bod hynny'n cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio ac mewn canllawiau ynghylch sut i warchod y dirwedd hanesyddol yn well drwy'r offerynnau statudol presennol. Er enghraifft, mae patrwm a natur ffiniau caeau ac adeiladau brodorol yn nodweddion o bwys yn y Parc Cenedlaethol, ac mae'r rhain wedi'u hystyried yn yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd a gynhaliwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn ei ganllaw i Ddylunio Cynaliadwy.

Mae LANDMAP, y system sy'n rhoi gwybodaeth am y dirwedd yng Nghymru, hefyd yn cynnwys haen o ddata am y dirwedd hanesyddol, ac mae'r data hynny'n cael eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau

## Adeiladau rhestredig

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yw'r darnau o gyfraith sy'n cydnabod ac yn gwarchod adeiladau hanesyddol pwysig.



Adeiladau yw Adeiladau Rhestredig sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig, sydd â gwerth fel grŵp, sydd o bwysigrwydd technegol, neu sydd â chysylltiad â phobl / digwyddiadau pwysig. Mae nifer yr Adeiladau Rhestredig gan hynny'n adlewyrchu arwyddocâd ac amrywiaeth yr amgylchedd adeiledig hanesyddol. Adeiladau Rhestredig yw'r enghreifftiau gorau o adnoddau adeiledig hanesyddol y Parc Cenedlaethol, ac maen nhw'n amrywio o eglwysi canoloesol a chestyll i gerrig milltir a chiosgau ffôn.

Cadw sy'n gyfrifol am ddynodi Adeiladau Rhestredig. Gellir hefyd restru adeiladau'n unigol yn y fan a'r lle. Nid yn unig y mae rhestru'n gysylltiedig â'r adeilad ei hun, a'r tu mewn iddo, ond hefyd ei gwrtil ac adeiladau o'r cyfnod cyn 1948 o fewn y cwrtil. Bydd Adeiladau Rhestredig yn cael eu graddio fel rhai I, II* a II yn dibynnu ar eu pwysigrwydd. Mae dros 1,200 o Adeiladau Rhestredig yn y Parc Cenedlaethol: 33 adeilad Gradd I a 76 adeilad Gradd II*.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau hanesyddol sy'n cael eu gwarchod o dan y gyfraith yn y Parc Cenedlaethol mewn cyflwr da, er bod angen atgyweirio nifer ohonyn nhw ac y bydden nhw'n elwa o gael eu hailddefnyddio. Mae 5.5% wedi'u dynodi yn rhai sydd â risg.

## Ardaloedd Cadwraeth

Mae meysydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig wedi'u dynodi yn Ardaloedd Cadwraeth yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae 14 yn y Parc Cenedlaethol: Angle, Caerfarchell, Ynys Bŷr, Aber-bach, Maenorbŷr, Portclew, Porthgain, Saundersfoot, Solfach, Tyddewi, Dinbych-y-pysgod (ehangwyd yn 2019), Trefin, Trefdraeth a Pharrog Trefdraeth. Mae Ardal Gadwraeth yn



cael ei hystyried yn Nanhyfer, ac mae'n bosibl y bydd ardaloedd eraill yn cael eu hystyried yn ystod oes y Cynllun Partneriaeth.

Ar ôl dynodi Ardaloedd Cadwraeth, mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddyletswydd statudol i greu Datganiadau Ardaloedd Cadwraeth a Dogfennau Cynigion. Mae'r rhain wedi cael eu llunio mewn partneriaeth â Gweithgorau Ardaloedd Cadwraeth (sy'n cael eu hethol drwy'r Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned perthnasol), gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Mae'r Datganiadau Cymeriad yn asesu pwysigrwydd yr Ardaloedd Cadwraeth, ynghyd â'u cyflwr corfforol a'r ffactorau risg.

Ym mis Hydref 2022, fe wnaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol greu a mabwysiadau Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynigion am Ardaloedd Cadwraeth. Mae cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn berthnasol i ardaloedd cadwraeth Aber-bach, Trefdraeth, Solfach, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod; mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cyfyngu ar ddatblygiadau a ganiateir a byddan nhw'n gymorth i warchod yr ardaloedd hyn ymhellach.

## Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig

Mae Cadw, y Cyngor Rhyngwladol Henebion a Safleoedd, a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Mae'r Gofrestr yn dangos pwysigrwydd y parciau a'r gerddi rhestredig, ond ar hyn o bryd nid yw'n eu gwarchod yn statudol.



Ceir 15 o Barciau a Gerddi hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol: Hen Blas Boulston; Porthdy Colby; Plas Cosheston; Cresselly; Lawrenni; Mynwent Sant Brynach; Castell Sant Ffraid; Castell Upton; Gwesty Warpool Court; Priordy Ynys Bŷr; Trewarren; Castell Picton; Parc Slebech; Coedcanlas; a Llys Ystagbwll.

Mae'r rhain wedi'u graddio ar sail meini prawf ac yn cynnwys 1 safle Gradd I, 2 safle Gradd II*, a 12 safle Gradd II. Ar hyn o bryd, nid oes arolygon yn cael eu cynnal o gyflwr Parciau a Gerddi Hanesyddol a'r risgiau sy'n eu hwynebu.

## Hynodrwydd lleol

Mae cymeriad adeiladau lleol yn cyfrannu at hynodrwydd y dreftadaeth adeiledig yn y Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, nid oes ffordd y cytunwyd arni o fesur cyfradd y newid yng nghymeriad adeiladau lleol, ond y tebygolrwydd yw bod esgeulustod a diffyg atgyweirio yn arwain at ddirywiad yn eu cymeriad.

## Y Gymraeg

***"… gwarchod cadarnleoedd y Gymraeg a diwylliant yn y parc cenedlaethol, polisïau ar gyfer tai a llety gwyliau, mwy o swyddi i bobl leol, mwy o gymorth ac arian i dirfeddianwyr i hybu ymyriadau cadarnhaol yn y dirwedd a buddion amgylcheddol."***

***"Er yn "amhrisiadwy", rhaid cael ffordd o roi gwerth ar y rhinweddau hyn, gan gynnwys y gwaith y mae teuluoedd ffermio lleol yn ei wneud i***

**Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol ac yn sir Benfro yng nghyfrifiadau 2001, 2011 a 2021. Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

| Ardal | Siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2001 (%) | Siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011 (%) | Siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 (%) |
|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 23.3% | 21.5% | 19.4% |
| Sir Benfro | 21.5% | 18.4% | 20.7% |

*warchod yr amgylchedd, y Gymraeg a diwylliant. Dylid hyrwyddo'r broses o ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, a hithau'n ased mor wych. E.e. drwy ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg. Dylid helpu i gyrraedd y targed ar gyfer siaradwyr Cymraeg."*

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n sylweddol drwy'r sir. Mae'r llinell sylfaen a geir yn y Gwerthusiad o Gynaliadwyedd / yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhoi mwy o fanylion (yn ôl ardal cynghorau cymuned) am gyfran yr unigolion a allai siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021. Mae'r map isod yn dangos cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2021) yn ardaloedd y cynghorau cymuned[18].

*"Hoffwn obeithio y byddai un o amcanion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â gwarchod a hyrwyddo rhinweddau tirwedd eithriadol yr ardal hefyd yn ymestyn i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ein hardal."*

Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn parhau i esblygu ac yn rhan ganolog o ddiwylliant newydd, cynhwysol, bywiog a chyfoes.

## Tafodiaith y Gymraeg (Sir Benfro)

Mae rhannau o Sir Benfro yn enwog fel gwlad y "Wês, wês", a hynny oherwydd y dafodiaith sy'n cael ei siarad yno. Un o brif nodweddion Cymraeg Sir Benfro yw bod y sill 'oe' yn cael ei hynganu fel 'ŵe' neu 'wê' mewn geiriau unsillafog. Felly daw 'oes' yn 'wês', daw 'oer' yn 'wêr', daw 'ddoe' yn 'dwê' a daw 'coed' yn 'cwêd'.




**Yn gallu siarad Cymraeg" (%) fesul ardal Cyngor Cymuned. Cyfrifiad 2021**

[18]Yn y flwyddyn y ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023, amcangyfrifodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fod 29.2% o bobl tair oed a hŷn yng Nghymru gyfan yn gallu siarad Cymraeg; mae'r ffigur hwn yn cyfateb i tua 896,300 o bobl (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Ymhlith geiriau eraill a geir yn nhafodiaith Sir Benfro mae ‘perci’ am ‘caeau’, ‘cered’ am ‘cerdded’, ‘tewi’ am ‘tywydd’ ac ‘wsnoth’ am ‘wythnos’ .
Mae tafodiaith unigryw Sir Benfro i’w chlywed yn rhan ogleddol y Parc Cenedlaethol.

## Tafodiaith de Sir Benfro

Mae blas Eingl-Normanaidd cryf ar dafodiaith de Sir Benfro, o gyfnod pan ddisodlwyd y Gymraeg yn gynyddol gan y Saesneg a siaradai ymsefydlwyr o Orllewin Lloegr. Anogwyd nifer o fasnachwyr Fflemaidd i ymgartrefu yma yn y ddeuddegfed ganrif, gyda Fflemineg yn dal i gael ei siarad bedair canrif yn ddiweddarach. Mae’r ardal sy’n hanesyddol wedi pontio’r ‘Saesonaeth’ a ‘bro’r Cymry’ (y ‘Landsger’ yw’r label diweddarach a roddwyd ar yr ardal) yn dal yn amlwg yn ieithyddol. Serch hynny, mae’n debygol y bydd y ‘Landsger’ yn parhau i ddod yn llai unigryw dros amser, wrth i’r Gymraeg ennill tir drwy Sir Benfro, gyda chymorth cyfleoedd i gael addysg Gymraeg.

Mae nifer o eiriau sy’n gyffredin yn yr ardal yn deillio o eirfa’r ymsefydlwyr o orllewin Lloegr – geiriau fel ‘culm’ (glo mân), ‘drang’ (lôn gefn), ‘lake’ (yn ddryslyd, afon) ac ‘evil’ (fforch wair). Mae rhai geiriau’n tarddu o’r Fflemineg fel ‘slop’ (bwlch mewn perth) a ‘hadridge’ (mwstard gwyllt)[19].

Mae nifer o enwau llefydd yn deillio o’r cyfnod hwn, er enghraifft mae’r ôl-ddodiad ‘ton’ yn nodweddiadol o aneddiadau Seisnig. Mae nifer o enwau llefydd Cymraeg wedi goroesi drwy’r ardal hefyd, fel Pwllcrochan a Rhoscrowdder, sy’n awgrymu bod y Gymraeg wedi parhau i ffynnu mewn rhai mannau. Yn anochel, newidiodd rhai enwau llefydd hŷn – daeth Merthyr Tywai yn Martletwy, er enghraifft.

[19]Rhint y Gelaets a’r Grug, Tafodiaith Sir Benfro, Wyn Owens, Y Lolfa, 2013



Yn Saesneg, mae nifer o eiriau tafodieithol gwych sy'n dal i gael eu defnyddio heddiw. Mae 'Why aye' a 'Why no' yn dal yn gyffredin, ac felly hefyd 'in a caffle' neu 'all to clush' (mewn penbleth), 'kift (chwithig), 'pile' (taflu), grip' (ffos) a 'stumming' (poeth) neu 'stivvling' (oer). Ceir geiriau ac ymadroddion hyfryd i ddisgrifio nodweddion personol fel 'tamping' (dig), 'plenty of kidney' (ymffrostgar) a 'hernie' (rhywun cyfrwys), 'talking rammas' (rhywun sy'n hel clecs) a 'slammocky' (rhywun anniben).

Bydd pobl leol yn dal i ynganu enwau llefydd yn eu ffyrdd eu hunain. Yn eu plith mae 'Langum' (Llangwm), 'The Ross' (Rhos), 'La-hadden' (Llanhuadain), 'Landewy' (Llanddewi Felffre) a 'Sandersfoot' (Saundersfoot). Mae rhai enwau llefydd yn cael eu tocio, fel 'Harfat' (am Hwlffordd), 'Tish' (am Lanisan-yn-Rhos) a 'Satson' (am Sageston).

Yn olaf, ceir 'slang o chwith' Dinbych-y-pysgod, sydd bron wedi mynd dros gof, a ddyfeisiwyd i ddrysu pysgotwyr Brixham yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y rheol yw symud llythyren gyntaf gair i'w ddiwedd cyn ychwanegu 'a'. Felly, daw'r enw Saesneg Tenby yn 'Enbyta'.

## Ansawdd dŵr

***"Llygredd amaethyddol mewn afonydd, a gorddatblygu o fewn ffiniau'r parc."***

***"Mae'r slyri sy'n cael ei wasgaru'n ddi-baid ar gaeau yn y parc (a'r tu allan iddo) yn broblem anferth... mae angen llawer mwy o reoli ar hyn."***

O dan system ddosbarthu Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000, mae'r cyrff dŵr yn y Parc Cenedlaethol mewn cyflwr



"cymedrol" ar y cyfan, yn ôl yr asesiadau diweddaraf a gynhaliwyd yn 2021. Mae'r statws yn cael ei bennu drwy ddefnyddio data biolegol a chemegol, a'r rheini'n cael eu cyfuno i roi statws cyffredinol, sef uchel, da, cymedrol, gwael neu ddrwg. Seilir hyn ar y dosbarth isaf a gyrhaeddir gan unrhyw un o'r gwahanol elfennau a gaiff eu monitro

Mae diwygiadau i ganllawiau monitro'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi arwain Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu ei amcanion cadwraeth ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â ffosfforws, lle mae'r targedau wedi'u gwneud yn fwy llym o lawer. Yn Sir Benfro, mae systemau afon Teifi ac afonydd Cleddau wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, ond nid ydyn nhw'n cyrraedd y targedau.

Yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau, ceir 19 corff dŵr mewn dwy system gyfagos sy'n gollwng i harbwr Aberdaugleddau.

**Crynodeb o statws y cyrff dŵr yn y Parc Cenedlaethol**

| Statws | Hyd (m) | Canran |
|---|---|---|
| **Da** | 29,183 | 28.70% |
| **Cymedrol** | 60,726 | 59.73% |
| **Gwael** | 11,761 | 11.57% |
| Ffynhonnell y data: Cyfoeth Naturiol Cymru | | |

**Statws cyffredinol y cyrff dŵr yn y Parc Cenedlaethol**

| Categori | Nifer | Uchel | Da | Cymedrol | Gwael | Drwg | Heb eu hasesu eto |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Afonydd | 85 | 0 | 13 | 69 | 3 | 0 | 0 |
| Llynnoedd | 4[20] | 0 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Rhyngbarthol | 5 | 0 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Arfordirol | 5 | 0 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Dŵr Daear | 5 | 0 | 2 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Ffynhonnell y data: Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) | | | | | | | |

[20]Mae Llynoedd Bosherston wedi'u rhannu'n dair rhan wahanol.

Y methiannau yn Afon Cleddau Wen yw rhai o'r crynodiadau uchaf parhaus o ffosfforws yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol Cymru. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o afonydd eraill Cymru, nid oes gan Afon Cleddau Wen flaenddwr yn yr uwchdir i ddarparu cyflenwad o ddŵr gyda lefel isel o faetholion a all wanedu maetholion sy'n cael eu hychwanegu i lawr yr afon. O gyfuno hyn ag amaethyddiaeth sy'n gynyddol ddwys yn y dalgylch, mae'n gwneud yr afon yn agored i gael ei chyfoethogi â maetholion.

Mae llygredd ffosfforws yn gofyn am weithredu ar lefel y dalgylch i wella ansawdd a gweithrediad ecosystem yr afon, ac i leihau'r maetholion sy'n cael eu hychwanegu. Gall nifer o gamau gweithredu ar lefel yr ecosystem wella gallu ecosystemau afonydd i wrthsefyll llygredd maetholion, gwella'u gallu i brosesu ffosfforws a gaiff ei ychwanegu, ac arwain at fanteision ehangach fel cynyddu'r capasiti cario ar gyfer gleisiaid.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad o'r modd yr oedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol Cymru yn cydymffurfio â nifer o dargedau ansawdd dŵr, gan gynnwys amonia. Roedd afonydd Cleddau ac afon Teifi ymhlith y rheini a fethodd gyrraedd y mwyaf o dargedau, gyda phroblemau cyson o ran amonia yn afonydd Cleddau.



## Ansawdd Dŵr Ymdrochi

*“Y dyddiau hyn mae’n rhaid i chi ddewis eich llefydd nofio’n ofalus iawn.”*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu ansawdd y dŵr ymdrochi mewn 29 o leoliadau o amgylch arfordir y Parc Cenedlaethol rhwng mis Mai a mis Medi bob blwyddyn. Bydd y canlyniadau’n cael eu defnyddio wedyn i greu sgôr / dosbarthiad blynyddol, a hynny wedi’i seilio’n bennaf ar grynodiadau y colifformau ysgarthol yn y dŵr. Yn 2022, roedd pob un o’r lleoliadau dŵr ymdrochi a aseswyd yn y Parc Cenedlaethol yn perthyn i’r dosbarth “Da” neu “Ragorol” (2 neu 3 seren). Yn 2023, dychwelodd Gogledd Dinbych-y-pysgod i statws Rhagorol, syrthiodd Amroth i Dda, a syrthiodd Wiseman’s Bridge i Ddigonol.

Mae effaith gollwng carthffosiaeth yn sgil gorlif storm yn bryder difrifol. Yn 2023, cafwyd cyfanswm o 115,525 o achosion o ollwng drwy Gymru gyfan, gyda charthffosiaeth heb ei thrin yn gollwng yn sgil gorlif storm am dros filiwn o oriau.

***“Galluogi aelodau’r cyhoedd i gyfrannu at y gwaith o brofi’r dŵr ar ein holl draethau. Helpu gyda chyfathrebu pan fydd digwyddiadau llygredd. Helpu i lobïo ffermwyr a Dŵr Cymru i warchod y traethau.”***

## Adnoddau dŵr

Mae manylion y dŵr sydd ar gael ar gyfer trwyddedu i’w gweld yn Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr Cyfoeth



Naturiol Cymru. Mae'r rhain yn rhoi trosolwg o ble mae dŵr ar gael a faint ohono sydd ar gael ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr newydd, gan roi sylw i'r dŵr sy'n cael ei dynnu eisoes a gofynion amgylcheddol.

Mae llifoedd afonydd yn newid yn naturiol yn ystod y flwyddyn, a'r amcan yw gwarchod yr amrywioldeb hwn yn y llifoedd. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio pedwar llif gwahanol, Q95 (y llifoedd isaf), Q70, Q50 a Q30 (y llifoedd uchaf). Mae'r wybodaeth hon yn rhoi darlun realistig o'r adnoddau presennol sydd ar gael mewn corff dŵr (uned dŵr wyneb yn yr is-ddalgylch neu uned dŵr daear).

Mae'r fframwaith cyfreithiol yn gwarchod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn llym iawn. Mae safleoedd Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd o bwysigrwydd amgylcheddol mawr. Rhaid i bob cais am drwydded newydd ger neu o fewn y safleoedd hyn gael ei asesu o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i weld a fydd effeithiau posibl ar nodweddion safleoedd, ar eu pennau'u hunain neu ar y cyd â thrwyddedau eraill. Mae Adolygiad o Ganiatadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd wedi arwain at newid rhai trwyddedau, ac mae gan Afon Cleddau Wen ac Afon Cleddau Ddu bellach statws sy'n datgan nad oes 'dim dŵr ar gael' (yn hytrach na'u bod wedi'u 'gor-drwyddedu').

Mae *Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro* (Mai 2014) yn dangos yr adnoddau sydd ar gael mewn pwyntiau asesu penodedig. Nid yw'r cyhoeddiad sy'n dweud faint o adnoddau sydd ar gael wedi'i ddiweddaru ers 2014, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn diweddaru'r ffynonellau data er mwyn rhoi cyngor am geisiadau newydd am drwyddedau tynnu dŵr a cheisiadau i newid trwyddedau presennol.



| Y dŵr sydd ar gael ym mhwyntiau asesu dalgylchoedd Cleddau | | |
|---|---|---|
| **Cyf** | **Enw** | **Yr adnoddau dŵr sydd ar gael yn Q95** |
| 1 | Afon Cleddau Wen yn nherfyn y llanw | Dŵr ddim ar gael i'w drwyddedu |
| 2 | Afon Cleddau Wen yng ngorsaf fedryddu Melin Prendergast | Dŵr cyfyngedig ar gael i'w drwyddedu |
| 3 | Afon Cleddau Wen yn Nhreffgarne | Dŵr cyfyngedig ar gael i'w drwyddedu |
| 4 | Afon Cleddau Wen yng Nghasmorys | Dŵr cyfyngedig ar gael i'w drwyddedu |
| 5 | Nant Cartlett | Dŵr ddim ar gael i'w drwyddedu |
| 6 | Anghof yn Wolfscastle | Dŵr cyfyngedig ar gael i'w drwyddedu |
| 7 | Afon Cleddau Ddu yn nherfyn y llanw | Dŵr ddim ar gael i'w drwyddedu |
| 8 | Afon Cleddau Ddu yng ngorsaf fedryddu Pont Canaston | Dŵr ddim ar gael i'w drwyddedu |
| 9 | Afon Cleddau Ddu i fyny'r afon o Syfynwy | Dŵr ddim ar gael i'w drwyddedu |
| 10 | Syfynwy i fyny'r afon o gydlifiad Afon Cleddau Ddu | Dŵr ddim ar gael i'w drwyddedu |

| Y dŵr sydd ar gael ym mhwyntiau asesu dalgylchoedd Afonydd Arfordirol Sir Benfro | | |
|---|---|---|
| **Pwynt Asesu** | **Enw** | **Yr adnoddau dŵr sydd ar gael yn Q95** |
| 1 | Afon Nyfer yn nherfyn y llanw | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 2 | Afon Gwaun yn nherfyn y llanw | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 3 | Afon Gwaun yng ngorsaf fedryddu Pont Cilrhedyn | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 4 | Afon Alun yng ngorsaf fedryddu Tyddewi | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 5 | Afon Solfach yng ngorsaf fedryddu Felinganol | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 6 | Nant Fflatiau'r Gann | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 7 | Westfield Pill | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 8 | Cors Castellmartin | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 9 | Ritec | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |
| 10 | Afon Cresswell | Dŵr ar gael i'w drwyddedu |

Yn sgil Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017, cafwyd gwared ar y rhan fwyaf o'r eithriadau ar gyfer dŵr daear wrth reoli trwyddedu. Mae'r trefniadau trwyddedu trosiannol yn berthnasol i dynnu dŵr perthnasol yn Sir Benfro.

## Ansawdd aer

Mae amcanion sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer ac sy'n berthnasol i reoli ansawdd aer yng Nghymru i'w cael yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd). Mae gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ansawdd yr aer bob tair blynedd, gydag adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae ardal y Parc Cenedlaethol wedi'i chynnwys yn Asesiadau Diweddaru a Sgrinio Ansawdd Aer Cyngor Sir Benfro. Mae amcanion sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer yn berthnasol i bensen, 1,3 bwtaden, carbon monocsid, plwm, nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, a sylffwr deuocsid.

Bydd Cyngor Sir Benfro yn monitro mewn nifer o leoliadau yn Sir Benfro. Yn achos gormodiant, diffinnir Ardal Reoli Ansawdd Aer a chyflwynir strategaeth i leihau'r llygrydd. Nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn y Parc Cenedlaethol. Yn gyffredinol, nid yw'n bosibl gwneud sylwadau am ansawdd aer amgylchynol gerllaw ffynonellau diwydiannol neu ar ochr y ffordd, ond mae'r tueddiadau'n dangos cynnydd yng nghrynodiadau nitrogen deuocsid sy'n gysylltiedig ag allyriadau o gerbydau drwy Sir Benfro i gyd.

Mae amonia o ffynonellau amaethyddol hefyd yn broblem, ac mae llwythi llinell sylfaen ansawdd yr aer ar hyn o bryd mewn gormodiant yn rhai o'r safleoedd cadwraeth natur mwyaf sensitif. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar



dderbynyddion sy’n agored i nitrogen adweithiol, fel cennau.

## Treftadaeth y ddaear

**Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol**
Mae safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol yn safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol, ac wedi’u dynodi o dan ddeddfwriaeth ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd y nodweddion o arwyddocâd daearegol sydd ynddyn nhw.

Ceir 51 safle Adolygu Cadwraeth Ddaearegol yn y Parc Cenedlaethol, a hynny dros tua 40% o arfordir y Parc (ac eithrio Dyfrffordd Aberdaugleddau, sy’n cynnwys un safle), ynghyd â nifer o ardaloedd mewndirol. Mae nifer o’r safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol hyn o arwyddocâd rhyngwladol. Mae map yn gynharach yn y Cynllun hwn yn dangos eu dosraniad a’u maint.

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r wybodaeth hysbys ddiweddaf am gyflwr a thueddiadau nodweddion y safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol. Mae asesiadau o gyflwr y safleoedd daearegol yn cynnwys ystyried pa mor hygyrch, gweladwy a defnyddiol ydyn nhw ar gyfer ymchwil ac addysg.

Er bod y tabl uchod yn awgrymu bod y gwaith rheoli’n dda, prosesau naturiol (e.e. erydu morol) sy’n bennaf cyfrifol am barhau i amlygu’r ddaeareg. Mae rhywfaint o erydu’n angenrheidiol ar y cyfan er mwyn parhau i amlygu creigiau arfordirol, ac mae honno’n broses sy’n ennyn diddordeb ynddi’i hun. Serch hynny, dylid cofnodi



nodweddion daearegol cyn eu colli a dogfennu prosesau naturiol wrth iddyn nhw ddigwydd. Bydd y cyfnod hwn hefyd yn helpu i roi sail i gynlluniau peirianneg sifil, fel prosiectau i amddiffyn yr arfordir

**Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol**
Mae Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol yn ddynodiadau cynghorol (h.y. anstatudol) a'u bwriad yw cyd-fynd â safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol.

Mae chwe deg chwech o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol posibl wedi'u canfod yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain mewn lleoliadau arfordirol ac mewn cyflwr ffafriol.

## Priddoedd

Nid yw cyflwr y priddoedd yn y Parc Cenedlaethol yn hysbys iawn, ond mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn credu bod y priddoedd yn gyffredinol o dan bwysau yn sgil arferion rheoli tir, a'u bod yn wynebu risg yn sgil effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae priddoedd yn cymryd amser hir i ffurfio, ac yn ôl graddfeydd amser pobl, gellid eu hystyried yn adnodd anadnewyddadwy. Mewn rhai achosion, mae'n debygol bod angen brys i newid y dulliau rheoli er mwyn atal y pridd rhag diraddio ac atal colli pridd, a / neu golli biota mewn pridd. Bydd gwaith cadwraeth ar bridd yn y dyfodol yn gwarchod refeniw amaethyddol, bioamrywiaeth y pridd, a swyddogaethau gweithredol fel cyfraniad priddoedd at y gylchred carbon.

| Nodweddion safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol | Nifer y nodweddion | Canran y nodweddion |
|---|---|---|
| Ffafriol, wedi gwella, neu ddim newid | 44 | 72% |
| Ffafriol ond yn dirywio | 9 | 15% |
| Anffafriol | 4 | 6.5% |
| Anhysbys | 4 | 6.5% |

Mae gan briddoedd mawnog arwyddocâd arbennig fel storfeydd carbon, er nad ydyn nhw'n helaeth yn y Parc Cenedlaethol, gyda thua 385 hectar neu 0.6% o arwynebedd y Parc Cenedlaethol yn briddoedd o'r fath.


Er bod y storfeydd carbon (uwchben y ddaear ac o dan y ddaear ill dau) mewn coetiroedd yn uchel, mae glaswelltir cadwraeth yn storfa garbon sefydlog, ac mae adfer dolydd yn gweddu'n well dros rannau mwy o dirwedd y Parc Cenedlaethol na phlannu coed newydd. Yn ôl amcangyfrif bras, byddai adfer glaswelltir gwell (gyda'r gwerth presennol o 60 tunnell o garbon ym mhob hectar) i greu cyfuniad o laswelltir toreithiog ei rywogaethau, glaswelltir arfordirol, prysglwyni a nodweddion ffiniol, er enghraifft, yn arwain at 6 tunnell o garbon yn ychwanegol ym mhob hectar. Hynny yw, byddai cynnydd o 10% yn y cydbwysedd newydd.

Mae Map Rhagweld Llywodraeth Cymru ar gyfer Dosbarthiad Tir Amaethyddol yn rhoi data dangosol ynghylch ble yng Nghymru y ceir y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (diffinnir y rhain fel dosbarthiadau tir amaethyddol 1, 2 a 3a).

Mae tua 45% (44.59%) o dir y Parc Cenedlaethol yn dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, gyda dros chwarter (25.78%) y tir yn nosbarth 3a; 18.73% yn nosbarth 2 a 0.08% yn nosbarth 1. Mae cyfran y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas sydd yn nosbarthiadau 2 a 3a yn sylweddol uwch yn y Parc Cenedlaethol nag yng Nghymru gyfan.



| Dosbarth Tir | Arwynebedd yn y Parc Cenedlaethol (%) | Arwynebedd yng Nghymru (%) |
|---|---|---|
| 1 | 0.08 | 0.25 |
| 2 | 18.73 | 6.38 |
| 3a | 25.78 | 9.58 |




Mae'r adran hon wedi crynhoi Cyflwr y Parc.

Mae'r adrannau nesaf yn cyflwyno'r prif ganlyniadau y gobeithir eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun hwn a rhai o'r ffyrdd y gall Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid gydweithio i fynd i'r afael â'r materion dan sylw.

Mae atodiad yn cyflwyno rhai o'r dulliau mesur y gellid eu defnyddio i asesu'r cynnydd.

# Polisïau a chamau gweithredu



# 4 Cadwraeth: polisïau a chamau gweithredu

Gwarchod a gwella harddwch naturiol a bywyd gwyllt.

**Y prif ganlyniadau ar gyfer 2030:**

- Gwarchod a gwella ansawdd y dirwedd a'r morlun
- Gwarchod golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored
- Hybu adferiad ecosystemau ar raddfa fawr a gwella cyflwr bywyd gwyllt ar y tir ac yn yr amgylchedd morol (gyda charreg filltir i sicrhau adferiad amlwg erbyn 2050)
- Sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd sydd o werth mawr i natur.
- Cynnal a chryfhau rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig yn Sir Benfro
- Cynyddu cysylltedd y dirwedd ar gyfer bywyd gwyllt
- Lleihau effaith llygredd golau ar fywyd gwyllt
- Gwarchod treftadaeth y ddaear
- Gwarchod a gwella iechyd y pridd a gwella storfeydd carbon naturiol
- Mynd i'r afael ag effeithiau rhywogaethau goresgynnol a phathogenau planhigion
- Lleihau llygredd o ffosffadau, nitradau ac amonia
- Lleihau plastigion a microblastigion yn yr amgylchedd
- Helpu amrywiaeth ehangach o bobl i weithredu dros fyd natur



| Polisi L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morluniau'r Parc Cenedlaethol. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
| L1/A | Gwarchod gorwelion gweledol pwysig y Parc Cenedlaethol rhag datblygu, gan gynnwys cynhyrchu ynni a datblygiadau mawr. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Awdurdodau lleol cyfagos<br>Busnesau<br>Datblygwyr<br>Llywodraeth Cymru<br>Partneriaid yn y porthladd rhydd |
| L1/B | Sicrhau nad yw datblygiadau yn cael effeithiau niweidiol annerbyniol ar y dirwedd a'r morlun, a bod gan ddatblygiadau ddyluniadau da. | Asiantau<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Awdurdodau cyfagos<br>Busnesau<br>Datblygwyr<br>Llywodraeth Cymru<br>Rheolwyr tir, gan gynnwys ffermwyr |
| L1/C | Rheoli effeithiau hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Sir Benfro (Cynllunio, Priffyrdd, gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd)<br>Dŵr Cymru Welsh Water<br>Gweithredwyr presennol<br>Llywodraeth Cymru<br>Rheolwyr tir<br>Sefydliadau sydd wedi'u heithrio<br>Ymwelwch â Sir Benfro |
| L1/D | Lleihau effaith weledol y seilwaith presennol, e.e. rhwydweithiau telathrebu a dosbarthu pŵer, er enghraifft drwy osod ceblau o dan y ddaear neu rannu tyrau. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Busnesau<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Diwydiant<br>Rheolwyr tir<br>Western Power Distribution / Y Grid Cenedlaethol<br>Ystad y Goron |

| Polisi L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morluniau'r Parc Cenedlaethol. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
| L1/E | Rheoli sbwriel, gan gynnwys sbwriel yn y môr, a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau hyn. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cadwch Gymru'n Daclus<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Sir Benfro<br>Cymunedau<br>Ymwelwyr |

| Polisi E1: Gwarchod a gwella ansawdd, rhychwant a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa fawr. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
| E1/A | Darparu prosiectau rheoli tir ymarferol ym maes cadwraeth er mwyn sicrhau budd i fioamrywiaeth. | Amphibian and Reptile Conservation Trust<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Buglife<br>Bumblebee Conservation Trust<br>Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Benfro<br>Coed Cadw<br>Cyswllt Ffermio<br>Llywodraeth Cymru<br>Partneriaeth Natur Sir Benfro<br>Plantlife<br>Rheolwyr tir<br>Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro<br>Rhwydwaith Pori Sir Benfro<br>Tirweddau Cymru / Landscapes Wales<br>Undeb Amaethwyr Cymru<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a Lloegr<br>Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru<br>Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

| Polisi E1: Gwarchod a gwella ansawdd, rhychwant a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa fawr. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
| E1/B | Cefnogi ffermwyr, yn enwedig y sector llaeth, i leihau effeithiau ar bridd a dŵr drwy arferion adferol. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Benfro<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyswllt Ffermio<br>Llywodraeth Cymru<br>Partneriaeth Natur Sir Benfro<br>Rheolwyr tir<br>Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro<br>Rhwydwaith Pori Sir Benfro<br>Undeb Amaethwyr Cymru<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a Lloegr<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| E1/C | Rhoi ar waith brosiectau penodol i warchod rhywogaethau sy'n arbennig o bwysig yn Sir Benfro (e.e. mursen y De, nodwedd o Ardal Cadwraeth Arbennig y Preseli), a mannau byd natur lleol. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Grwpiau cymunedol<br>Gwirfoddolwyr<br>Partneriaid prosiect Natur am Byth!<br>Plantlife<br>Rheolwyr tir |
| E1/D | Rheoli pathogenau a rhywogaethau goresgynnol anfrodorol a/neu niweidiol. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Sir Benfro<br>Cymunedau<br>Gwirfoddolwyr<br>Perchnogion cychod<br>Pysgotwyr<br>Rheolwyr tir<br>Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

| Polisi E1: Gwarchod a gwella ansawdd, rhychwant a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa fawr. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
| E1/E | Rheoli a lliniaru'r risgiau o danau gwyllt drwy waith addas i ymwneud â'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth am arferion gorau, a chymorth ymarferol. | Cymunedau<br>Ffermwyr tir comin<br>Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro<br>Rheolwyr tir<br>Siarter Tanau Gwyllt Cymru<br>Ymwelwyr |
| E1/F | Sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cyflawni budd net i fioamrywiaeth. | Asiantau cynllunio ac ymgeiswyr<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| E1/G | Rheoli safleoedd sydd o werth gwirioneddol neu werth posibl i fyd natur yn uniongyrchol, drwy brynu neu rentu ar les y safleoedd hynny, pan fydd yn opsiwn rheoli cost-effeithiol ym maes cadwraeth. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Coed Cadw<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru<br>Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| E1/H | Lleihau troseddu sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chymryd camau priodol pan fydd yn digwydd. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cymunedau<br>Gwirfoddolwyr<br>Heddlu Dyfed-Powys<br>Rheolwyr tir |

| Polisi E1: Gwarchod a gwella ansawdd, rhychwant a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa fawr. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
| E1/I | Atal ac adfer niwed i nodweddion cadwraeth safleoedd dynodedig. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Rheolwyr tir |
| E1/J | Cefnogi bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol, sy'n amgylcheddol iach, ac sy'n dangos cyfrifoldeb cymdeithasol. | Busnesau lletygarwch<br>Cymunedau<br>Rheolwyr tir<br>Ymwelwyr |
| E1/K | Gwrthod cynigion a fyddai'n debygol o gael effaith niweidiol sylweddol (naill ai ar eu pennau'u hunain neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig, oni bai eu bod yn bodloni'r profion cyfreithiol yn y Rheoliadau Cynefinoedd. | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Sir Benfro |
| E1/L | Datblygu prosiectau adfer natur sydd hefyd yn helpu i gynyddu amrywiaeth y bobl sy'n gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. | Natur am Byth!<br>Prosiect Pathways |

| Polisi E2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth forol. | | |
|---|---|---|
| Cyfeirnod | Cam gweithredu enghreifftiol | Y prif bartneriaid |
